# Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir y Fflint**

**Enw'r swyddog cyfrifol: Janet Roberts**

**Teitl swydd: Swyddog Datblygu Chwarae – Cyngor Sir y Fflint**

**Dyddiad cwblhau: 22/07/2022 – CYMERADWYWYD AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU**
**Yn dilyn Prosesau Craffu a'r Cabinet**

Noder bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae erbyn 31 Mehefin 2022

play wales chwarae cymru

## Cynnal yr Asesiad - Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Yn ogystal â phennu darpariaeth sylfaenol, bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni'r canlynol:

- Nodi bylchau o ran gwybodaeth, darpariaeth, darparu gwasanaethau a gweithredu polisïau
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu tystiolaeth er mwyn rhoi syniad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Amlygu ffyrdd posibl o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
- Mewnbwn a chyfranogiad pob partner sy'n meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth
- System fonitro a fydd yn cynnwys ac yn gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Nodi enghreifftiau o arfer da
- Mwy o waith partneriaeth wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Nodi camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar Sicrhau bod Digon o Gyfleoedd Chwarae ar gael sy'n cyd-fynd â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Lluniwyd templed i gefnogi arfarniad corfforaethol o'r materion y mae angen eu hystyried fel y nodir yn y Canllawiau Statudol. Cyflwynir y dangosyddion a restrir ym mhob mater fel dangosyddion enghreifftiol y dylid eu diwygio i ymdrin â materion lleol fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried ac asesu'r materion a nodir yn Rheoliadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a'r Canllawiau Statudol.

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth sylfaenol, gall yr Asesiad gynnwys enghreifftiau o arfer cyfredol y mae'r Awdurdod Lleol am dynnu sylw ato.

Efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried strwythuro'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y ffordd ganlynol ac o leiaf fynd i'r afael â'r holl adrannau a nodir.

**Prif Ddatganiad**

Mae Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n byw yn y sir yn cael mynediad i amser, lle a chaniatâd i chwarae fel rhan o'u bywydau bob dydd. Caiff pob teulu a'r gymuned ehangach fudd o hyn. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i sicrhau bod gan blant sy'n byw yn Sir y Fflint 'hawl i chwarae' fel y diogelir o fewn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod chwarae yn rhan ganolog o fwynhad plant a phobl ifanc o fywyd ac mae'n hanfodol i'w lles corfforol ac emosiynol a'u datblygiad iach. Rydym yn cydnabod y gall rhai agweddau ar ein cymdeithas fodern gyfyngu ar yr

amser a gaiff plant i chwarae, ynghyd ag yn lle, a'r caniatâd i wneud hynny. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i barhau i greu partneriaethau effeithiol i alluogi digon o gyfleoedd i chwarae.

Ein nod yw creu amgylcheddau chwarae cyfoethog lle gall plant chwarae yn rhydd, ynghyd ag annog ein cymunedau i hwyluso cymaint o gyfleoedd chwarae ag y bo modd, er mwyn cefnogi gallu plant i chwarae.

Mae'r Tîm Datblygu Chwarae o fewn Gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig y portffolio Addysg ac Ieuenctid, yn gweithio gydag adrannau eraill Cyngor Sir y Fflint ac asiantaethau sy'n bartneriaid, gan annog unigolion i gydnabod eu heffeithiau eu hunain o safbwynt cyfleoedd i blant chwarae yn y sir - gall yr effeithiau fod yn negyddol neu'n gadarnhaol. Mae'r tîm yn dadlau'n eang dros yr angen i ystyried chwarae wrth gynllunio gwasanaethau lleol; ynghyd a hybu camau i ddatblygu a chyflenwi prosiectau gwaith chwarae, a darparu cyngor ymarferol parhaus i deuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill wrth gefnogi hawl plant i chwarae.

Trwy waith y Tîm Datblygu Chwarae, mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi gwerth mawr ar chwarae, gyda phwyslais ar hawl plant i chwarae. Trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer chwarae o fewn cymunedau lleol, bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwella profiad plant a phobl ifanc o dyfu i fyny yn y sir.

**Cyd-destun**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi adolygu ac asesu ei holl gynlluniau gweithredu ar gyfer chwarae ers cynnal yr archwiliad sylfaenol, yr ymgymerwyd ag ef ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2013, ynghyd ag asesiadau dilynol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yr ymgymerwyd â hwy yn ystod cylch tair blynedd, yn 2016 a 2019. Mae'r broses adolygu ac asesu hon wedi ffurfio sail Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022 a'r gofyniad am gynllunio camau gweithredu blynyddol ar ôl hynny.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth â phob cyngor tref a chymuned yng nghyswllt mannau chwarae ag offer, cynlluniau arian cyfatebol a chynlluniau chwarae gwyliau. Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn gweithio'n agos ag ystod o bartneriaid eraill, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol ar gyfer prosiectau chwarae a gyflenwir ledled y sir.

e.e. Mae tîm Datblygu Chwarae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithio mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant, trwy grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, i ddarparu Prosiect P.A.L.S. - 'Play and Leisure Support' i blant a phobl ifanc ag anableddau.

Yn dilyn codi'r cyfnod clo cyntaf, roedd Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid, cynghorau tref a chymuned a Llywodraeth Cymru, wedi cyflenwi rhaglen o gynlluniau chwarae haf ledled y sir yn 2020, am gyfnod o bythefnos. Dychwelwyd i gynlluniau 4, 5 a 6 wythnos mewn rhai trefi a phentrefi, mewn partneriaeth â 30 cyngor tref a chymuned, mewn 57 o leoliadau yn ystod 2021. Mae gwaith cynllunio a recriwtio'n parhau ar gyfer cynnal

cynllun chwarae ar gyfer haf 2022. Mae'r ymatebion cynnar yn dangos bod cefnogaeth aruthrol i gynlluniau chwarae lleol. Mae cynlluniau chwarae'n darparu ar gyfer ein plant sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint, sy'n cefnogi plant ag anableddau ac yn diwallu anghenion plant sy'n siarad Cymraeg. Mae'r plant a phobl ifanc hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth o ran y ddarpariaeth yn y sir.

Mae'r cynllun arian cyfatebol poblogaidd gyda chynghorau tref a chymuned lleol, sydd wedi'i hen sefydlu, yn parhau i ffynnu. Ceir cryn gefnogaeth i'r cynllun hwn ar gyfer uwchraddio mannau chwarae ag offer yn y sir, yn ôl system RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) i ganfod y cymunedau hynny â'r angen mwyaf. Y sefydliad arweiniol ar gyfer y cynllun arian cyfatebol ar gyfer prosiectau cyfalaf yw Hamdden a Llyfrgelloedd AURA ('AURA Leisure and Libraries') sy'n gweithio'n agos â'r awdurdod lleol yng nghyswllt y ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
Sefydliad elusennol, nid-er-elw yw Hamdden a Llyfrgelloedd AURA, sydd, o'r 1af Medi 2017, wedi bod yn gyfrifol am reoli'r mwyafrif o ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd a weithredwyd yn flaenorol gan Gyngor Sir y Fflint. Model cyfreithiol y cwmni yw Cymdeithas Budd Cymunedol. Hamdden a Llyfrgelloedd AURA sy'n gyfrifol am swyddogaeth ddylunio, cynnal a chadw ac archwilio Hamdden a Llyfrgelloedd AURA. Mae Hamdden a Llyfrgelloedd AURA yn parhau i weithio'n agos â Chyngor Sir y Fflint yng nghyswllt Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynllunio camau gweithredu. Mae Hamdden a Llyfrgelloedd AURA wedi gweithio'n agos â Chyngor Sir y Fflint i bennu prosiectau pan fu cyllid ar gael i gefnogi gweithgareddau chwarae, e.e. Grantiau Cyfalaf Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan 2020 a 2021, 'Gaeaf Llawn Lles'. Mae hyn yn cydymffurfio â chynlluniau gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae blynyddol Cyngor Sir y Fflint.

**Ymgynghoriad a chyfranogiad**
Gofynnwyd i'r holl feysydd gwasanaeth a phartneriaid sy'n ymwneud â'r rhwydwaith chwarae ehangach yn Sir y Fflint ystyried statws RAG 2019 a 2022 a gwneud sylwadau ar unrhyw newid. Dirprwywyd Tîm Datblygu Chwarae Sir y Fflint gan Gyngor Sir y Fflint i baratoi'r ymateb hwn ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grant o £10k i gefnogi'r gwaith gweinyddu ac ymgynghori ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022.

Cylchredwyd papur briffio, ynghyd â thempled Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru i bob partner, a oedd yn nodi'r pwyntiau a ganlyn:

**Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir y Fflint 2022 - 2025**
Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae, fel yr ymgorfforwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cydnabyddir hyn gan Lywodraeth y DU, a gan Lywodraeth Cymru.

Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu a sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae. Mae'r dasg hon yn ymwneud â chydweithio i ystyried yr amryw agweddau ar fywyd yn y gymuned sy'n effeithio cyfleoedd i chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys y modd

y defnyddir yr amgylchedd; traffig a thrafnidiaeth; darpariaeth chwarae a hamdden; a'r rhan a chwaraeir gan rieni a'r gymuned yng nghyswllt cyfleoedd chwarae.

Mae'r cyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol, *Cymru – Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae*, yn nodi ystod eang o faterion ar draws amryw feysydd polisi y mae angen eu hystyried:

- Mater A: Poblogaeth
- Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
- Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
- Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth
- Mater E: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
- Mater F: Mynediad i le/darpariaeth [*mae hyn yn cynnwys mynediad i ddulliau teithio, yn ogystal â gwybodaeth a chyhoeddusrwydd*]
- Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
- Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
- Mater I: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol [*Addysg/Ysgolion, Cynllunio Gwlad a Thref, Traffig a Thrafnidiaeth, Iechyd a Lles, Tlodi Plant, Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant a Pholisi a Mentrau i Deuluoedd, Datblygu Cymunedol, Polisïau a Mentrau sy'n Pontio'r Cenedlaethau, Diogelwch Cymunedol ac Iechyd a Diogelwch]*

Cyflwynwyd Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013, Mawrth 2016 a Mawrth 2019. Mae'r asesiad hwn i fod i gael ei gyflwyno ar 30ain Mehefin 2022. Cyflwynir cynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd i Lywodraeth Cymru hefyd, fel rhan o ddyletswydd Cyngor Sir y Fflint.

**Methodoleg Ymgynghori**
Rydym wedi cylchredeg gwybodaeth gefndirol a'r templed (gan gynnwys meysydd penodol i'w cwblhau) i bob maes gwasanaeth perthnasol: -

- Polisi Cynllunio – Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- Darpariaeth Ieuenctid Integredig – Addysg ac Ieuenctid
- Dechrau'n Deg – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Strategaeth Rhianta – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Sir y Fflint – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Iechyd a Diogelwch – Polisi Corfforaethol
- Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – Addysg ac Ieuenctid
- Y Gwasanaeth Lles Addysg – Addysg ac Ieuenctid
- Cymuned Holway trwy blant; pobl ifanc; teuluoedd; aelodau o'r gymuned ac Uwch Reolwyr Cyngor Sir y Fflint
- Teuluoedd yn Gyntaf – Llywodraeth Cymru

- Canolfan Deuluoedd Gogledd Sir y Fflint Wledig – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth
- Datblygu Gofal Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tîm Cyfranogiad – Addysg ac Ieuenctid
- Gwasanaethau Cefn Gwlad
- Iechyd, Lles a Diogelu – Addysg ac Ieuenctid
- Gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr
- Tai ac Adfywio
- Hwb Cymorth Cynnar
- Rhwydwaith Rhieni
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau Lleol
- Ysgolion Sir y Fflint
- Cefnogaeth y Blynyddoedd Cynnar
- Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint
- Cynnig Gofal Plant Sir y Fflint
- Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint
- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Sir y Fflint
- Mudiad Meithrin
- Coleg Cambria
- Cynllun Cyn Ysgol Iach Sir y Fflint
- Gweithredu dros Blant
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
- Rhieni Cymunedol Sir y Fflint / 'Flintshire Community Parents'
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Hawl Bore Oes Sir y Fflint

- Rydym wedi cylchredeg gwybodaeth gefndirol a'r templed a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys meysydd penodol i'w cwblhau, i sefydliadau eraill sy'n bartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector.

- Mewn partneriaeth â holl ysgolion Sir y Fflint, mae 647 o blant wedi ymateb i 'AROLWG CHWARAE MAWR 2022', sef arolwg cenedlaethol a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru. Bydd yr ymateb i'r arolwg hwn hefyd yn cynorthwyo Cyngor Sir y Fflint i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol.

Ymgymerwyd ag arolygon ym mhob ysgol gynradd; ysgolion uwchradd; ysgolion arbenigol ac unedau cyfeirio plant trwy arolwg ar-lein. Ymgymerwyd â'r arolwg ers Ionawr 2022, a thrwy waith ymgynghori penodol yn ystod sesiynau chwarae a gyflenwyd trwy'r Tîm Datblygu Plant yn gweithio mewn ysgolion penodol a phrosiectau cymunedol yn ystod 2020/2022.

Y rhain, yn benodol, yw:-

Cynlluniau Chwarae Haf Sir y Fflint ar gyfer 2021, cofrestrwyd 2,779 o blant.

Ymatebion i 'AROLWG CHWARAE MAWR 2022':

- Ymatebion a dderbyniwyd erbyn 30ain Ebrill 2022 – Ymatebodd cyfanswm o 647 o blant i'r Arolwg: roedd 47% yn fechgyn, 49% yn enethod, ac ymatebodd 4% fel 'arall'.

- Mewn ymateb i'r cwestiwn: 'Ydych chi'n meddwl am eich hun fel rhywun anabl?' dywedodd 7% 'ydw' (45 o ymatebwyr).

- Gofynnwyd i'r plant pa iaith yr oedd yn well ganddynt ei siarad. O'r 647 a atebodd, roedd yn well gan 7% siarad Cymraeg, roedd yn well gan 87% siarad Saesneg. Nododd 5% ei bod yn well ganddynt siarad iaith arall, e.e. Pwyleg, Lithwaneg, Ffrangeg, Fietnameg, Rwmaneg, Hwngareg, Japaneeg.

- Yr oedd yr oedrannau fel a ganlyn: 5 = 1%, 6= 1%, 7=3%, 8= 9%, 9= 11%, 10 = 19%, 11= 23%, 12= 11%, 13= 15%, 14= 7%.

Mae'r ymgynghoriad hwn â'r plant wedi llywio'r sgyrsiau a gynhaliwyd â rhanddeiliaid allweddol. Datblygwyd camau gweithredu gyda phartneriaid i adlewyrchu'r rhwystrau a amlygwyd gan blant yn ein hymchwil. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn llywio gwaith i gynllunio camau gweithredu ar lefel leol a chenedlaethol hefyd.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi ymgymryd â darn mawr o ymchwil yng nghyswllt Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae trwy weithio'n agos â'r gymuned yn Holway ers mis Gorffennaf 2018, hyd at heddiw. Trwy weithio mewn partneriaeth, ynghyd â chyllid allanol, mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi cynnal eu presenoldeb i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl yn ystod y pandemig, ac wedi ymgysylltu â phawb yn y gymuned.

  Mae Cyngor Sir y Fflint wedi comisiynu'r ymgynghorwyr chwarae, Ludicology, i ymgynghori'n helaeth â phlant, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned sy'n byw yng nghymuned Holway ynglŷn â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn. Cynhelir ymgynghoriad cymunedol ym mis Mai 2022 i bennu p'un a oes parodrwydd ac angen i ddatblygu darpariaeth yn ffurf Maes Chwarae Antur ar gyfer y gymuned hon. Ariannwyd 100% o'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi ymgynghori â phlant sy'n mynychu Cynllun Chwarae Gwyliau Haf a phrosiectau chwarae eraill mewn ysgolion ac yn y gymuned, a gyflenwir trwy dîm Cicio i Blant (Cymru) ('Kicks for Kids') a P.A.L.S. (Cefnogaeth Chwarae a Hamdden/'Play and Leisure Support') i blant a phobl ifanc ag anableddau.

- Bu modd i'r Tîm Datblygu Chwarae weithio trwy gydol y pandemig i gefnogi'r Hybiau Cydnerthedd yn ystod y cyfnod clo mewn saith o Hybiau Sir y Fflint. Roedd y gwerthusiad a dderbyniwyd gan ysgolion yn dystiolaeth o ba mor bwysig yr oedd chwarae a Gwaith Chwarae o ran cefnogi plant a darparu budd cadarnhaol o safbwynt y profiad ysgol cyfan yn ystod y cyfnod hwnnw.

Lle'n bosibl, darparwyd y prosiectau chwarae a ganlyn ar gyfer ein plant sydd fwyaf agored i niwed yn gyson, trwy gydol y pandemig. Cafwyd y cyllid trwy gyllideb graidd yr awdurdod lleol ar gyfer gwaith Datblygu Chwarae yn ystod y pandemig, ac wedyn trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru, h.y. grantiau 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles'. Gwnaed cyfraniadau hefyd gan Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, P.A.L.S. (Cymorth Chwarae a Hamdden / 'Play and Leisure Support') i blant a phobl ifanc ag anableddau: Cyngor Tref Cei Connah, a thîm Cydnerthedd Wrecsam a Sir y Fflint ar gyfer ein gwaith gyda'r plant sipsiwn a theithwyr sy'n byw yn safle Riverside. Mae Cynghorau Tref a Chymuned lleol yn ariannu'r gwasanaeth cynlluniau chwarae gwyliau haf cyffredinol lle croesawir yr holl blant sy'n byw yn nhrefi a phentrefi Sir y Fflint:

- Ysgol Pen Coch, Ysgol Gynradd Arbenigol
- Cymuned Holway Meadowbank
- Ysgol Maes Hyfryd, Ysgol Uwchradd Arbenigol
- Ysgol Plas Derwen, Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)
- Parc Canolog Cei Connah
- Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Riverside
- P.A.L.S ('Play and Leisure Support')
- Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint
- Cynlluniau Chwarae Gwyliau Haf Sir y Fflint

Ceir tystiolaeth y cafodd y prosiectau hyn effaith fawr a chadarnhaol ar blant, pobl ifanc, teuluoedd, ysgolion a chymunedau. Bydd llawer o'r dystiolaeth hon yn darparu'r data ar gyfer cynllunio camau gweithredu blynyddol 2022/2023.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi ymgynghori'n uniongyrchol â phobl ifanc sy'n mynychu sesiynau chwarae yn Ysgol Arbennig Maes Hyfryd, ynghylch yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Yn ogystal, mae'r tîm wedi ymgynghori â phlant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Brychdyn ac Ysgol Bryn Gwalia.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi cylchredeg gwybodaeth gefndirol ynghyd â thempled cryno i bob Cyngor Tref a Chymuned ac Aelodau Lleol er gwybodaeth. Mae hyn yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae, trwy'r Swyddog Iaith Gymraeg a leolir o fewn y Tîm Darpariaeth Ieuenctid Integredig, wedi cylchredeg gwybodaeth gefndirol, ynghyd â'r templed a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i Urdd Gobaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a'r Mudiad Meithrin.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi cylchredeg gwybodaeth gefndirol a'r templed i Theatr Clwyd gael ymateb mewn perthynas â'r celfyddydau, diwylliant a'r gwasanaethau amgueddfeydd.

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi cylchredeg gwybodaeth gefndirol a'r templed i Hamdden a Llyfrgelloedd AURA gael ymateb mewn perthynas â phob maes o fewn y gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd:

  - Datblygu Chwaraeon
  - Campau'r Ddraig
  - Canolfannau Hamdden
  - Gwasanaethau Llyfrgelloedd
  - Y Tîm Dylunio ac Archwilio Offer Chwarae

- Mae'r Tîm Datblygu Chwarae wedi ymgynghori â 38 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a fynychodd y cynllun chwarae haf yn ystod haf 2021 trwy Gynllun Cyfeillio Sir y Fflint. Darparwyd cymorth fel y bo'n briodol ar gyfer anghenion y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Roedd Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint yn galluogi plant a phobl ifanc ag anableddau i chwarae â'u cyfoedion yn yr ardal leol.

- Darparwyd ystod o wasanaethau ar draws sbectrwm cyfan o wasanaethau a sefydliadau trwy gymorth grantiau 'Hwyl o Haf' a 'Gaeaf Llawn Lles' Llywodraeth Cymru, o dan ymbarél Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan. Cafwyd cryn dystiolaeth o effaith gadarnhaol yr holl wasanaethau hyn a gafodd eu creu o'r newydd neu eu hymestyn. Fe gafodd y wybodaeth hon ei chydnabod a'i hymgorffori o fewn Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022/2023.

**Defnyddio adnoddau i'r eithaf**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal ei gyllideb graidd o ran cyfalaf ar gyfer cyfleoedd chwarae i blant. Fodd bynnag, oherwydd cyni cyllidol, mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio canfod modd o ganfod cyllid refeniw i ddiwallu anghenion plant a chymunedau o ran cyfleoedd chwarae, yn erbyn cefndir o gyni cyllidol. Mae hyn yn parhau i fod yn her wrth gwrs.

Mae Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd diweddar wedi galluogi prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw a chyfalaf i weithio tuag at dargedau a nodir o fewn cynlluniau gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blynyddol, ynghyd â'u cyflawni. Ymhlith y grantiau trwy'r gronfa hon y mae'r grant Gwaith Chwarae Llwgu yn Ystod y Gwyliau; 'Haf o Hwyl' 2021 a 'Gaeaf Llawn Lles' 2021/2022. Er y darparwyd y grantiau hyn dros gyfnod byr, fe'u darparwyd yn benodol fel rhan o gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad Cymru o'r Pandemig COVID-19.

Mae'r cyllid hwn wedi profi i fod yn amhrisiadwy o safbwynt caniatáu Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid i symud ymlaen ar faterion allweddol o fewn y cynllun gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, e.e.

- Caniataodd i bartneriaethau allweddol ddatblygu prosiectau chwarae ar gyfer y plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn ardal y sir, e.e. gwaith cyson o fewn cymuned Holway.
- Gwella a chreu prosiectau chwarae awyr agored i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd chwarae ym mhob ysgol yn Sir y Fflint yn 2020/2021 a 2021/ 2022.
- Caniatáu cyfleoedd ar gyfer prosiectau chwarae newydd sy'n gofyn am gyllid cyfalaf, e.e. Darpariaeth Ieuenctid Integredig, Ysgolion Coedwig a phrosiect Dechrau'n Deg yn Sir y Fflint.
- Caniatáu prynu eitemau cyfalaf, e.e. i hybu'r Gymraeg mewn cyfleoedd chwarae a chefnogi gweithwyr trochi mewn lleoliadau ysgolion uwchradd i ddarparu ar gyfer mwy o broblemau iechyd meddwl ymhlith bobl ifanc yn dilyn COVID-19.
- Galluogi Cyngor Sir y Fflint i barhau â'r cynnig i bartneriaid o ran cyflenwi'r rhaglen cynlluniau chwarae gwyliau haf ledled y sir.
- Galluogi Cyngor Sir y Fflint i gynnig cyllid i bartneriaid gyflenwi cyfleoedd trwy brosiectau 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles' Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru.
- Caniatáu datblygu prosiectau P.A.L.S. ('Play and Leisure Support') a Cicio i Blant (Cymru) ('Kicks for Kids') mewn partneriaeth. Mae'r prosiectau hyn yn darparu gwasanaethau cyffredinol y gellir eu hintegreiddio neu eu targedu. Lleolir prosiectau mewn ysgolion neu gymunedau mewn angen, gan fynd ati'n aml i weithio'n benodol gyda'r plant sydd fwyaf agored i niwed, e.e. Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint i gefnogi plant ag anableddau i fynychu eu cynllun chwarae lleol, gyda chymorth fel y bo angen.
- Parhau i weithio tuag at gyflawni darpariaeth chwarae ddwyieithog ar draws y sir, trwy brosiectau chwarae peilot, a gyflenwir o fewn ysgolion a chymunedau, yn 2020-2021.

**Y Cynlluniau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Llesiant**
Cynrychiolir Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar y lefel uchaf yn y sir gan Brif Swyddog y Portffolio Addysg ac Ieuenctid. Rhoddir ystyriaeth i anghenion chwarae plant sy'n byw yn ein cymunedau yn ein cynllun llesiant lleol. Mae cyfleoedd o ran chwarae/chwaraeon/diwylliant a hamdden yn cyflawni dyheadau'r sir o safbwynt yr

agweddau Diogelwch Cymunedol, Lles a Byw yn Annibynnol a Chymunedau Gwydn o fewn y cynllun llesiant lleol – Cynllun Llesiant Sir y Fflint - 2017 -2023.

**Monitro Digonolrwydd Chwarae**

Ers ad-drefnu llywodraeth leol yn ystod 2018, lleolir y Tîm Datblygu Chwarae o fewn y Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig o fewn y Gwasanaeth Addysg ac Ieuenctid. Lleolir y Tîm Dylunio, Cynnal ac Archwilio Offer Chwarae ar gyfer mannau chwarae ag offer sefydlog o fewn Hamdden a Llyfrgelloedd AURA. Lleolir y cyfrifoldeb am y portffolio Mannau Agored Cyhoeddus, gan gynnwys rhai contractau ar gyfer safleoedd ysgol, o fewn Gwasanaethau Stryd Cyngor Sir y Fflint. Mae partneriaeth rhwng y tri maes gwasanaeth ar waith yn anffurfiol. Mae bwriad i Brif Swyddog y Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid a/neu Aelod Arweiniol y Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid gadeirio grŵp newydd, a fydd o ganlyniad yn cysylltu materion o ran Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o safbwynt sirol â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Y grŵp sirol newydd hwn fydd yn monitro cynlluniau gweithredu ar gyfer Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

**Mewnweliadau o'r Coronafeirws**

**COVID 19 – Effaith y Pandemig ac Adfer ar ôl Covid o 2020 – 2022 Ymlaen**

Cafodd y pandemig effaith fawr, na welwyd ei thebyg o'r blaen, ar fywydau plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ledled y sir.

Ceir tystiolaeth y bu'r cyflenwad parhaus o wasanaethau chwarae gan Gyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid yn ystod y cyfnod hwn, 2020-2022, yn fodd o ddarparu cymorth hanfodol i adfer o effeithiau corfforol ac emosiynol y pandemig, ac yn enwedig y cyfnodau clo.

Mae cymorth ariannol parhaus a chynyddol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau chwarae yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â chynllunio camau gweithredu blynyddol cadarn ar gyfer sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae, wedi bod o fudd mawr i gymunedau. Sicrhawyd cyllid ar sail partneriaethau, e.e. cynghorau tref a chymuned lleol; grantiau Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru; y prosiect Gwaith Chwarae haf; 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles' ar gyfer 2021/2022.

Roedd cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir y Fflint wedi galluogi cyflenwi gwasanaeth yn erbyn cefndir heriol y pandemig. Bu'r ymddiriedaeth a ddangoswyd gan Lywodraeth Cymru, partneriaid lleol a theuluoedd mewn darparwyr gwasanaeth a sefydliadau lleol yn wyrthiol. Rhoddodd Cyngor Sir y Fflint gefnogaeth lawn i hybu cyfleoedd chwarae, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cefnogi a oedd yn caniatáu sylfaen gadarn ar gyfer cyflenwi cyfleoedd yn ddiogel ac yn effeithiol yn ystod y pandemig, e.e. Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol a TG.

Yn Sir y Fflint, trwy'r Gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig, bu modd i ni barhau i ddarparu gwasanaethau y ceir tystiolaeth eu bod yn darparu cymorth y mae ei fawr angen ar gyfer plant a phobl ifanc.

| |
|---|
| Roedd y cyfnodau clo wedi lleihau neu atal rhai meysydd rhag cyflenwi eu gwasanaethau. Erbyn hyn, ein cydgyfrifoldeb, h.y. Cyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid, yw cydweithio a mynd ati'n effeithiol i barhau i gefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddod at eu hunain yn dilyn y profiadau hyn. |

**Meini Prawf**

Mae'r adran hon yn cynnwys y "materion sydd angen eu hystyried" fel y nodir yn adran 10 o'r Canllawiau Statudol

**Y golofn Meini Prawf:** Mae'n nodi'r data y bydd angen iddynt fod ar gael ac i ba raddau y mae Awdurdodau Lleol yn bodloni'r meini prawf a nodir.

**Y golofn statws RAG:** mae'n darparu blwch cwymplen, lle gall yr Awdurdod Lleol ddangos ei asesiad o p'un a yw'r maen prawf wedi'i fodloni'n llawn, wedi'i fodloni'n rhannol neu heb ei fodloni o gwbl. Mae'r rhain wedi'u nodi'n Goch, yn Ambr ac yn Wyrdd. sy'n ymddangos fel geiriau yn y blychau cwymplen.
Mae'r statws Coch, Ambr a Gwyrdd (Red, Amber, Green - RAG) yn adnodd i gyfleu statws yn gyflym ac yn effeithiol. *(Yn y golofn "Statws RAG ",dwblgliciwch y gair STATWS. Fe welwch wedyn y ddewislen fydd yn cynnig opsiynau o ran y meysydd, defnyddiwch yr allwedd sy'n dynodi saeth i lawr hyd nes y bydd y statws sy'n ofynnol sef COCH, OREN, neu WYRDD ar y brig ac yna gwasgwch ok)*

Mae'r statws Coch, Oren, Gwyrdd (RAG) yn adnodd i ddangos y statws yn gyflym ac yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | Bodlonwyd yn llawn |
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | Bodlonwyd yn rhannol |
| Ni fodlonwyd y meini prawf. | Ni fodlonwyd |

**Mae'r golofn 2022 yn galluogi'r awdurdod lleol i ddangos cyfeiriad y gwaith drwy ddefnyddio saethau.**

**Y golofn Tystiolaeth i gefnogi cryfderau:** dylid defnyddio'r golofn hon i roi rheswm dros statws dewisol y meini prawf ac ym mha ffurf y mae'r dystiolaeth.

**Y golofn Diffyg:** dylid defnyddio'r golofn hon i egluro'r meysydd lle nad yw'r Awdurdod Lleol yn bodloni'r meini prawf yn llawn.

**Y golofn Cam Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu:** dylid defnyddio'r golofn hon i ddangos sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cynllunio ar gyfer y Mater hwnnw

**Y Sylwadau Cyffredinol:** ceir rhai cwestiynau penodol ar gyfer pob mater a ddylai roi trosolwg clir o sut mae'r Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â bwriad a gweithrediad y mater hwn fel y nodir yn llawn yn y Canllawiau Statudol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i nodi unrhyw heriau a sut y gellir eu goresgyn.

**Mater A: Poblogaeth**

**Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae roi trosolwg o'r boblogaeth a'r data demograffig sy'n cael eu defnyddio'n lleol i gynllunio darpariaeth chwarae. Dylid cynnwys hefyd wybodaeth am y canlynol:**

- **Oed y plant**
- **Plant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf**
- **Ffactorau diwylliannol (gan gynnwys iaith arall)**
- **Plant Sipsiwn a Theithwyr**
- **Plant Anabl**

**Beth sydd wedi newid o ran y tueddiadau demograffig ac o ran y boblogaeth ers Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019?**

Rydym yn dal i ddibynnu ar ddoethineb yr holl swyddogion o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â data ystadegol. Rydym yn disgwyl am wybodaeth o gyfrifiad 2021.

Ein prif ddangosydd ar gyfer gwaith a dargedwyd yw'r boblogaeth o blant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Ers yr asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2019, roedd y boblogaeth o blant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 3571. Mae data o 2020/2021 yn dangos cynnydd o 27%, o ran plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, i 4538.

**Sut aeth/y bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ati i ddefnyddio'r data sydd ganddo am y boblogaeth i gynllunio cyfleoedd chwarae digonol yn lleol?**

Defnyddiwyd data i lywio'r holl gamau gweithredu a gynlluniwyd, gan gynnwys y prosiectau adfer newydd ac estynedig a sefydlwyd ar ôl Covid-19.

Defnyddir data, gan gynnwys ystadegau am y boblogaeth o blant, gan Hamdden a Llyfrgelloedd AURA yn y gwaith o ganfod yr angen am waith parhaus gan AURA o safbwynt datblygu cyfleusterau chwarae ag offer sefydlog a sefydlwyd o'r newydd, ynghyd ag adnewyddu rhai presennol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi defnyddio cyllid o gynlluniau 'Gaeaf Llawn Lles' a 'Haf o Hwyl' trwy grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan, i gynnig gwasanaethau amlasiantaethol mewn ardaloedd y nodwyd bod diffyg cyfleoedd chwarae ynddynt, ynghyd â gweithio gyda'n plant sydd fwyaf agored i niwed.

**Wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Mae'n anodd cael golwg clir ar y boblogaeth a'r ardal ddemograffig o fewn Sir y Fflint. Rydym yn dal i ddibynnu ar ddoethineb ein holl swyddogion o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â data ystadegol.

**Sut mae eu goresgyn?**
Trwy barhau i ddatblygu partneriaethau.

**Sylwadau**

**Statws RAG ar gyfer Mater A**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | |

**Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data ar sut mae'r Awdurdod Lleol a phartneriaid yn bwriadu cynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog plant i chwarae a chymdeithasu gyda'i gilydd.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Deellir a bodlonir gofynion chwarae plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell | | | Parhau i gyflenwi Cynllun Cyllid Cyfatebol yr awdurdod lleol ar gyfer gwneud gwelliannau i fannau chwarae plant trwy Hamdden a Llyfrgelloedd AURA (gweler adroddiad y Cabinet, 20 Tachwedd 2018).<br><br>**Gaeaf Llawn Lles -** Rhaglen a oedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a 'City of Sanctuary'. Comisiynwyd artistiaid gennym i greu pecyn lles dwyieithog a anfonwyd i gartrefi lleol ledled Sir y Fflint. Rydym hefyd yn darparu gwersi cerdd i unigolion, ac yn agor rhagor o leoedd bwrsariaeth o fewn ein gweithgareddau wythnosol. Rydym yn ymestyn ein cynnig o ran ein gweithdy wythnosol i unrhyw un sy'n 4-25 oed ar gyfer rhai na fyddent fel arfer yn cymryd rhan.<br><br>CSyFf – Cynllun Cyllid Cyfatebol Blynyddol ar gyfer gwneud gwelliannau i fannau chwarae plant.<br><br>Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, ac yn darparu strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned | Nid yw cyllid bob amser yn ymestyn i ddarparu gweithgareddau digonol a chynnal mannau chwarae. | AURA i barhau i ymgynghori â chynghorau tref a chymuned yng nghyswllt y cynllun arian cyfalaf cyfatebol. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol.<br>Ceir mannau chwarae awyr agored mewn nifer o bentrefi gwledig. Bydd gweithgareddau cynlluniau chwarae'n cael eu rhedeg pan fo cyllid ar gael. | | |
| 2. | Deellir a bodlonir gofynion chwarae plant Cymraeg eu hiaith | | | Mae gan bob man chwarae sy'n eiddo i'r awdurdod lleol arwyddion gwybodaeth dwyieithog.<br><br>**Gaeaf Llawn Lles -** Rhaglen a oedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a 'City of Sanctuary'. Comisiynwyd artistiaid gennym i greu pecyn lles dwyieithog a anfonwyd i gartrefi lleol ledled Sir y Fflint. Rydym hefyd yn darparu gwersi cerdd i unigolion, ac yn agor rhagor o leoedd bwrsariaeth o fewn ein gweithgareddau wythnosol. Rydym yn ymestyn ein cynnig o ran ein gweithdy wythnosol i unrhyw un sy'n 4-25 oed ar gyfer rhai na fyddent fel arfer yn cymryd rhan. Ariannwyd hyn gan gronfa Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae rhaglen *Bright Sparks* yn teithio o amgylch ysgolion cynradd lleol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, bu taith 8 wythnos ar thema pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Maths) yn ymweld ag ysgolion cynradd. Roedd *Bright Sparks* yn targedu disgyblion cyfnod allweddol 2 (blynyddoedd 3/4/5/6). Darpariaeth | Mae angen i Gyngor Sir y Fflint a'i bartneriaid gydweithredu i sicrhau bod gofynion siaradwyr Cymraeg o ran chwarae yn cael eu deall, ac y darperir ar eu cyfer trwy weithgor amlasiantaethol. Byddai'r grŵp hwn yn edrych yn benodol ar anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau sy'n siarad | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ddwyieithog oedd hon – a oedd yn rhad ac am ddim i ysgolion gyda chymorth cyllid Ymestyn yn Ehangach.<br>Dyfyniadau o'r prosiect:<br>*'Dwi'n hoffi màths erbyn hyn!'*<br>*'Maen nhw fel arfer eisiau mynd i'r toiled 3 i 4 gwaith y bob sesiwn, ond doedd neb eisiau mynd heddiw!'*<br><br>Mae Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bawb, ac yn hwyluso grwpiau a dargedir ac unigolion na fyddent yn cael mynediad i ddarpariaeth mynediad agored, neu fod arnynt angen cefnogaeth arbenigol pellach. Mae hyn yn cynnwys gwaith LGBTQ+ ynghyd â recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod y gallu i gyflenwi ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn ategu ein gwaith, ond hefyd yn hyrwyddo ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru a'i hiaith trwy'r ddarpariaeth gyfan. | Cymraeg yn Sir y Fflint<br><br>Tymor byr / byr rybudd oherwydd natur cyllid gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Effaith fawr ar blant a phobl ifanc.<br><br>Nid y tu hwnt i gyfnod y grant.<br><br>h.y. Haf o Hwyl.<br><br>Gorffennaf i Fedi 2021<br>Gaeaf Llawn Lles<br><br>Hydref i Fawrth 2021/2022. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Deellir a bodlonir gofynion chwarae plant sydd o gefndir diwylliannol gwahanol | | | Mae pob gwasanaeth i blant a phobl ifanc a ddarperir gan yr awdurdod lleol a sefydliadau sy'n bartneriaid yn ystyried anghenion plant a phobl ifanc o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac yn eu parchu.<br><br>**Yr Hwb Creadigol** Cynhaliodd Theatr Clwyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Hwb Haf yn 2020 a 2021 ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn Sir y Fflint. Cefnogwyd 160 o bobl ifanc trwy'r rhaglen waith hon, a chyflogwyd 32 o artistiaid llawrydd. *Hanner tymor Chwefror 2021:* Cawsom weithio gyda 76 o bobl ifanc o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Cyflogwyd 18 o artistiaid llawrydd gennym (cyfarwyddwyr, dylunwyr, artistiaid gweledol, ac actorion a cherddorion) i arwain gweithdai creadigol gyda'r bobl ifanc. Roedd hyn i gyd yn rhad ac am ddim.<br><br>**Lleisiau Clwyd Voices -** Sefydlwyd partneriaeth gennym gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Trwy brosiect peilot newydd, gweithiwyd gyda 10 artist a 30 o bobl ifanc a gyfeiriwyd atom trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn brosiect peilot i annog pobl na fyddent efallai'n cael eu clywed neu na fyddai pobl yn gwrando arnynt. Lluniwyd y prosiect hwn fel y gallwn wneud ymdrech wirioneddol i wneud y theatr yn gartref i bawb, i wrando ar artistiaid a phobl ifanc a | Nid yw pob gwasanaeth a ddarperir yn cael eu cyfieithu i bob iaith a siaredir yn ardaloedd yr awdurdod lleol | Canfod anghenion plant o ran iaith ar draws y sir<br><br>e.e. Teuluoedd ffoaduriaid<br><br>Defnyddio'r holl adnoddau sy'n hysbys, ynghyd â'r gwasanaethau/ offerynnau cyfieithu, yn ôl y cyngor a ddarperir |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnyddio'r celfyddydau creadigol fel offeryn i hybu lles. Rhoddwyd Theatr Clwyd ar y rhestr fer ar gyfer 'Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2022' am ein partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Mae gennym bellach 32 o bobl ifanc o'r teuluoedd hyn o fewn ein cwmnïau wythnosol, ar fwrsariaethau a ariennir yn llawn, fel rhan o'n gwaith i sicrhau bod y grwpiau hyn yn hygyrch i bawb. Rydym am gymryd ein hamser i ddatblygu ein partneriaethau gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych a Wrecsam dros y flwyddyn nesaf, i sefydlu sylfaen gref cyn cyflenwi'r prosiect yn y siroedd hyn. Ystyrir mai Sir y Fflint yw'r meincnod a'r flaenoriaeth.<br><br>**<u>Dyfyniadau gan bobl ifanc</u>** *'mae'n gyfle i gael allan o'r tŷ, i gael mwy o ryddid, i gael amser i mi fy hun… Mae o wedi bod yn bwysig i mi am fy mod i byth yn cael cyfle i wneud pethau fel hyn oherwydd fy mod i'n gorfod gofalu am mam fel arfer.'*<br><br>**Gaeaf Llawn Lles -** Rhaglen a oedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a 'City of Sanctuary'. Comisiynwyd artistiaid gennym i greu pecyn lles dwyieithog a anfonwyd i gartrefi lleol ledled Sir y Fflint. Rydym hefyd yn darparu gwersi cerdd i unigolion, ac yn agor rhagor o leoedd bwrsariaeth o fewn ein gweithgareddau wythnosol. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rydym yn ymestyn ein cynnig o ran ein gweithdy wythnosol i unrhyw un sy'n 4-25 oed ar gyfer rhai na fyddent fel arfer yn cymryd rhan. Ariannwyd hyn gan gronfa Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae rhaglen *Bright Sparks* yn teithio o amgylch ysgolion cynradd lleol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, bu taith 8 wythnos ar thema pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Maths) yn ymweld ag ysgolion cynradd. Roedd *Bright Sparks* yn targedu disgyblion cyfnod allweddol 2 (blynyddoedd 3/4/5/6). Darpariaeth ddwyieithog oedd hon - a oedd yn rhad ac am ddim i ysgolion gyda chymorth cyllid Ymestyn yn Ehangach.<br>Dyfyniadau o'r prosiect:<br>*'Dwi'n hoffi màths erbyn hyn!'*<br>*'Maen nhw fel arfer eisiau mynd i'r toiled 3 i 4 gwaith y bob sesiwn, ond doedd neb eisiau mynd heddiw!'*<br><br>Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth – Mae darpariaeth Ddatgysylltiedig ac Allgymorth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn cyfarfod gyda phobl ifanc yn y cymunedau lle maent yn cyfarfod a chymdeithasu. Mae'r tîm Datgysylltiedig yn cefnogi sesiynau chwaraeon allgymorth Hamdden a Llyfrgelloedd AURA, yn cyfarfod a siarad â phobl ifanc, yn darparu | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwybodaeth iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. | | |
| 4. | Deellir a bodlonir gofynion chwarae ac anghenion cymorth plant anabl | | | Mae cynwysoldeb yn elfen allweddol o unrhyw ddarpariaeth chwarae presennol ac unrhyw ddarpariaeth newydd, gan gynnwys darpariaeth chwarae wedi'i staffio a gyflenwir gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.<br>Cynhelir yr arolwg chwaraeon ysgolion bob 2/3 blynedd, sef yr arolwg mwyaf o'i fath yn Ewrop. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall anghenion o ran cynhwysiant. Ymgynghorir â chlybiau, teuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol.<br><br>Mae cynwysoldeb yn elfen allweddol o unrhyw waith adnewyddu ar fannau chwarae presennol, ac unrhyw ddyluniadau ar gyfer cyfleusterau chwarae newydd.<br><br>Mae cynlluniau chwarae'n sicrhau bod croeso i bawb ac maent yn annog defnyddwyr o bob gallu. | Tra bo hyn yn cael ei annog, ychydig iawn o dystiolaeth a geir o hygyrchedd yn nhermau offer ac addasiadau i fannau chwarae<br><br>Cyngor Cymuned yr Hôb: ceir diffyg o ran cyfleusterau ac offer i blant anabl yn y gymuned ac ar draws y sir | Gweithio gydag AURA a chynghorau tref a chymuned i ganfod diffygion o ran mynediad ac offer.<br>Darparu gwybodaeth o ran cynhwysiant ar gyfer meysydd chwarae a ddatblygir yn Sir y Fflint |
| 5. | Mae gan brosiectau a darparwyr chwarae fynediad i amrywiaeth o adnoddau sy'n | | | Mae gan wasanaethau a gyflenwir trwy brosiectau chwarae o dan yr awdurdod lleol fynediad i ystod eang o adnoddau i alluogi mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau.<br><br>**Yr Hwb Creadigol** Cynhaliodd Theatr Clwyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Hwb Haf yn 2020 a 2021 ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn Sir y Fflint. | Ni cheir tystiolaeth o hyn gan ddarparwyr eraill | Dim diffyg |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cefnogi cynhwysiant | | | Cefnogwyd 160 o bobl ifanc trwy'r rhaglen waith hon a chyflogwyd 32 o artistiaid llawrydd. *Hanner tymor Chwefror 2021:* Cawsom weithio gyda 76 o bobl ifanc o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Cyflogwyd 18 o artistiaid llawrydd gennym (cyfarwyddwyr, dylunwyr, artistiaid gweledol, ac actorion a cherddorion) i arwain gweithdai creadigol gyda'r bobl ifanc. Roedd hyn i gyd yn rhad ac am ddim.<br><br>**Lleisiau Clwyd Voices -** Sefydlwyd partneriaeth gennym gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Trwy brosiect PEILOT NEWYDD, gweithiwyd gyda 10 artist a 30 o bobl ifanc a gyfeiriwyd atom trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn brosiect peilot i annog pobl na fyddent efallai'n cael eu clywed neu na fyddai pobl yn gwrando arnynt. Lluniwyd y prosiect hwn fel y gallwn wneud ymdrech wirioneddol i wneud y theatr yn gartref i bawb, i wrando ar artistiaid a phobl ifanc a defnyddio'r celfyddydau creadigol fel offeryn i hybu lles. Rhoddwyd Theatr Clwyd ar y rhestr fer ar gyfer 'Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2022' am ein partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Mae gennym bellach 32 o bobl ifanc o'r teuluoedd hyn o fewn ein cwmnïau wythnosol, ar fwrsariaethau a ariennir yn llawn, fel rhan o'n gwaith i sicrhau bod y grwpiau hyn yn hygyrch i bawb. Rydym am gymryd ein hamser i ddatblygu ein partneriaethau | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych a Wrecsam dros y flwyddyn nesaf, i sefydlu sylfaen gref cyn cyflenwi'r prosiect yn y siroedd hyn. Ystyrir mai Sir y Fflint yw'r meincnod a'r flaenoriaeth.<br>**Dyfyniadau gan bobl ifanc** *'mae'n gyfle i gael allan o'r tŷ, i gael mwy o ryddid, i gael amser i mi fy hun… Mae o wedi bod yn bwysig i mi am fy mod i byth yn cael cyfle i wneud pethau fel hyn oherwydd fy mod i'n gorfod gofalu am mam fel arfer.'*<br><br>Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ailagorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch yn gwbl weithredol unwaith eto, ac mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n cael pethau'n anodd o safbwynt eu llesiant. Darperir grwpiau cymdeithasol a chymorth i fynd i mewn i addysg, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth. | | |
| 6. | Ceir dull hysbys cytûn a ddefnyddir i nodi'r angen i gynnig darpariaeth ar | | | Mae rhaglenni Ieuenctid, Anabledd a Llesiant a Chwaraeon i Bobl Ifanc Anabl yn cyfeirio unigolion at ddarpariaeth chwarae, chwaraeon a hamdden. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau gan yr Hwb Cymorth Cynnar. | CC Trelawnyd: Y prif fater yw integreiddio o fewn gweithgareddau chwarae. Mae | Dylid rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaethau statudol ynghylch gwasanaethau sy'n ariannu eu hunain |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wahân i blant anabl | | | Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi comisiynu Consortia Anabledd. Cynrychiolir chwarae yn y grŵp hwn trwy brosiect P.A.L.S. (‘Play and leisure Support’)<br><br>Mae’r Consortia yn cynnig gwasanaeth sy’n cyflawni’r hyn sydd angen ei gyflenwi ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Rhennir arferion gorau ac arbenigedd ein partneriaid gyda’r nod o ddiwallu **anghenion cyfannol** y plant, pobl ifanc a’r teuluoedd a effeithir gan anabledd sy’n cael eu hatgyfeirio trwy **ddull sy’n canolbwyntio ar anghenion**.<br><br>Mae’r dull gweithio cydweithredol hwn yn cyflenwi rhaglenni o gefnogaeth bwrpasol i ddiwallu anghenion unigol, gan gynnwys:<br><br>Ymyriadau o ran dysgu a datblygu i gefnogi pobl ifanc anabl i ddatblygu sgiliau bywyd iach, e.e. cyllidebu, bwyta’n iach ac ymarfer corff.<br>Gweithgareddau cymdeithasol i bobl ifanc anabl i ddatblygu sgiliau newydd a hybu creadigrwydd.<br><br>Gweithgareddau yn y gymuned gydag aelodau o’r consortiwm e.e. **AURA, Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint** sy’n darparu rhagor o gymorth i ddarparu gweithgareddau integredig o ddewis plant. | angen strategaeth sy’n dilyn beth mae ysgolion yn ei wneud i integreiddio plant anabl, LGBT a phlant o gefndiroedd ethnig amrywiol. Nid yw cynghorau bach yn gallu darparu’r cyfle hwn i blant heb gymorth cyhoeddus a phreifat, e.e. yn ardal Trelawnyd, mae’r gymuned yn darparu Clwb Ieuenctid Annibynnol a Grŵp Babanod a ariannir trwy arian a godir yn lleol a grantiau o ffynonellau | mewn ardaloedd gwledig. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae cynllun 'meddwl agored, mannau agored' **Groundwork** yn rhoi cefnogaeth i bobl ifanc anabl a'u teuluoedd gael ymgysylltu â Mannau Gwyrdd i wella lles corfforol a meddyliol.<br><br>Mae **Daffodils** yn darparu gweithgareddau cymunedol wedi'u cynllunio, sy'n cynnwys teuluoedd estynedig ac yn darparu dyddiau allan i leoliadau yn y gymuned. Ceir mynediad i weithgareddau chwarae fel y bo'n briodol yn ystod penwythnosau, gwyliau ysgol a gyda'r nos, a'n nod bob amser yw sicrhau y caiff pobl eu hintegreiddio'n llawn mewn gweithgareddau yn y gymuned.<br><br>Mae pob partner o fewn y consortiwm yn cyflenwi gwasanaethau ac yn cefnogi plant a phobl ifanc y nodwyd bod ganddynt un neu ragor o ACES. Mae cysylltu teuluoedd â chymorth amserol yng nghyswllt budd-daliadau a thai, yn eu galluogi i gael mynediad i incwm ychwanegol neu dai priodol i roi cyfle gwell i deuluoedd gael byw bywydau iach heb galedi ariannol.<br><br>Mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cefnogi teuluoedd, darperir rhaglenni cefnogi cyfoedion gan weithio gyda phobl ifanc anabl a'u rhieni. O fewn y consortiwm, ceir modelau o waith arloesol, fel Grŵp Cefnogi Rhieni **AFC** a **Daffodils** sy'n darparu | grant. Ni dderbynnir unrhyw gyllid gan asiantiaid statudol. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu eiddo a mannau sy'n eiddo i'r cyngor yn rhad ac am ddim i sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth gwaith chwarae am ddim i blant (ar y pwynt mynediad) | | | Ceir mynediad am ddim i bob man chwarae ag offer sefydlog sy'n eiddo i'r awdurdod lleol.<br><br>Ceir tystiolaeth y darperir mannau chwarae awyr agored ardderchog mewn amryw ardaloedd gwledig yn rhad ac am ddim.<br><br>Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ail-agorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed. | | |

**Gweithgareddau hamdden strwythuredig i blant**

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae cynlluniau awdurdodau lleol mewn perthynas â chwaraeon, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau hamdden egniol yn cyfrannu at gynyddu gweithgareddau chwarae a | | | Mae Datblygu Chwaraeon AURA yn darparu'r canlynol: -<br><br>Ffit, Bwyd a Darllen ('Fit, Fed & Read') – Darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf mewn 7 lleoliad<br><br>Hybiau Cymunedol x 18<br><br>Lles Ieuenctid ac Anabledd – 10 wythnos trwy atgyfeiriad | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hamdden sydd ar gael am ddim | | | Campau'r Ddraig a 5 x 60 – 15,000+ o sesiynau am ddim y flwyddyn<br><br>Y Filltir Ddyddiol<br><br>Arweinwyr Meysydd Chwarae'n cyflenwi gwasanaeth mewn ysgolion.<br><br>Bwyd a Hwyl ('SHEP') – 12 diwrnod o weithgaredd corfforol am 1 awr y dydd fesul carfan (mae gennym 9 carfan yn 2022). Clybiau cymunedol lleol sydd wedi'u cysylltu â'r ysgolion i gynyddu cyfranogiad a mynediad i lwybr clwb. Gweithdai i athrawon / cydlynwyr ar gemau maes chwarae i uwchsgilio'r gweithlu.<br><br>**Yr Hwb Creadigol** Cynhaliodd Theatr Clwyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Hwb Haf yn 2020 a 2021 ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn Sir y Fflint. Cefnogwyd 160 o bobl ifanc trwy'r rhaglen waith hon a chyflogwyd 32 o artistiaid llawrydd. *Hanner tymor Chwefror 2021:* Cawsom weithio gyda 76 o bobl ifanc o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Cyflogwyd 18 o artistiaid llawrydd gennym (cyfarwyddwyr, dylunwyr, artistiaid gweledol, ac actorion a cherddorion) i arwain gweithdai creadigol gyda'r bobl ifanc. Roedd hyn i gyd yn rhad ac am ddim. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ail-agorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed.<br><br>Cynhelir Ysgol Goedwig erbyn hyn, am 4 diwrnod yr wythnos, sy'n cynnwys 2 ddiwrnod ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, diwrnod ar gyfer y rheiny sy'n mynychu'r UCD, ynghyd â diwrnod ar gyfer plant dan 5, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff ei staffio ar y cyd gan weithwyr teulu Dechrau'n Deg a gweithwyr ieuenctid.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch yn gwbl weithredol unwaith eto, ac mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n cael pethau'n anodd o safbwynt eu llesiant. Darperir grwpiau cymdeithasol a chymorth i fynd i mewn i addysg, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth.<br><br>Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, ac yn darparu | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol.<br><br>Cyngor Ieuenctid – Mae'r Cyngor Ieuenctid yn rhoi llais a chynrychiolaeth i bobl ifanc 11-25 oed yn Sir y Fflint, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cefnogi ac yn llywio gwaith cabinet Cyngor Sir y Fflint. Caiff y Cyngor Ieuenctid ei lywio gan CCUHP a'r Safon Cyfranogiad Cenedlaethol, ac maent wrth wraidd ei waith. Mae'n ceisio eu hyrwyddo ynghyd ag addysgu pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn eu cylch ym mhob agwedd ar eu gwaith a'u gweithgareddau.<br><br>Mae Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bawb, ac yn hwyluso grwpiau a dargedir ac unigolion na fyddent yn cael mynediad i ddarpariaeth mynediad agored, neu fod arnynt angen cefnogaeth arbenigol pellach. Mae hyn yn cynnwys gwaith LGBTQ+ ynghyd â recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod y gallu i gyflenwi ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn ategu ein gwaith, ond hefyd yn hyrwyddo ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru a'i hiaith trwy'r ddarpariaeth gyfan. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth - Mae darpariaeth Ddatgysylltiedig ac Allgymorth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn cyfarfod gyda phobl ifanc yn y cymunedau lle maent yn cyfarfod a chymdeithasu. Mae'r tîm Datgysylltiedig yn cefnogi sesiynau chwaraeon allgymorth Hamdden a Llyfrgelloedd Aura, yn cyfarfod a siarad â phobl ifanc, yn darparu gwybodaeth iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.<br><br>**Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored Cyngor Sir y Fflint:**<br><br>Cynllun Chwarae Gwyliau'r Haf Sir y Fflint 2019/2020/2021<br><br>Roedd gwasanaethau wedi parhau yn ystod y pandemig. Galluogwyd hyn gyda chryn gefnogaeth gan y Gwasanaethau Corfforaethol, Uwch Reolwyr ac Aelodau Etholedig. Ar lefel leol, bu cynghorau tref a chymuned yn parhau i roi cefnogaeth ddiwyro i gynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf mewn partneriaeth, gan ddarparu cyfraniadau ariannol i gwrdd â chyfanswm costau'r prosiectau. Darparwyd cymorth ariannol ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru hefyd, i alluogi cyflenwi darpariaeth mewn modd diogel ac effeithiol. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | e.e.:-<br><br>• 2021 – Roedd 2,779 ohonynt, gyda 14,019 yn mynychu yn ystod y cyfnod cyfan o 6 wythnos.<br><br>• Roedd 120 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar gyfer y ddau gynllun chwarae cyfrwng Cymraeg.<br><br>• Roedd 38 o blant a phobl ifanc ag anableddau wedi mynychu eu darpariaeth chwarae lleol trwy Gynllun Cyfeillio Sir y Fflint.<br><br>Roedd yr effaith o ran cyflenwi cynllun chwarae gwyliau haf yn ystod 2020 a 2021 yn gadarnhaol iawn. Cafwyd tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn hapusach ac yn iachach o ganlyniad i gael mynychu cynllun chwarae. Dengys y dystiolaeth y gwnaeth y ddarpariaeth gwasanaeth hon gyfraniad cadarnhaol tuag at adferiad teuluoedd cyfan yn dilyn y pandemig.<br><br>Trwy ddilyn canllawiau'r Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â rheoli risg yn effeithiol, bu modd i'r | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Awdurdod Lleol gyflenwi gwasanaethau'n ddiogel, ac i safon uchel.<br><br>e.e.<br><br>• Cofrestru plant ar-lein ymlaen llaw, gan gynnwys darparu datganiadau COVID 19<br>• Arferion cynhwysfawr, diogel, wedi'u rheoli'n dda ar safleoedd.<br>• Hyfforddiant pwrpasol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau chwarae, gan gydymffurfio â gofynion rheoli risg o safbwynt Covid 19.<br><br>**Prosiectau chwarae – a gyflenwir gan yr Awdurdod Lleol**<br><br>**Cyngor Tref Cei Connah (Parc Canolog)**<br><br>Cyfanswm y sesiynau: 89<br>Oedran: 5-12 Oed cyfartalog: 8<br>Nifer Gyfartalog y Mynychwyr: 14 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn fechgyn: 11 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn enethod: 3<br>Sylwadau<br>"Dyma'r diwrnod gorau erioed" Dec, 6 oed<br>"Mi faswn i'n hoffi cael mynd i hwn bob nos" Ruben, 7 oed | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | "Pêl-droed go iawn ydi hwn, o dan oleuadau" Alfie, 7 oed<br>"Dwi ddim yn coelio bod hwn am ddim" J.R., rhiant bodlon<br>"Doeddwn i ddim yn arfer hoffi pêl-droed, ond mae hyn yn hwyl, yn enwedig yr iâr ffynci a'r dis" Grace<br>"Dwi'n hoffi gwneud y stwff Cymraeg" Ollie, 11 oed<br><br>**Yr Holway (Meadow Bank), Treffynnon**<br><br>Cyfanswm y sesiynau 42<br>Oedran: 5-16 Oedran cyfartalog: 14<br>Nifer Gyfartalog y Mynychwyr: 15 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn fechgyn: 10 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn enethod: 5.<br>Sylwadau<br>"Fyddai'n bosib i chi ddod bob dydd? Oherwydd 'da ni'n diflasu llwyr pan 'da chi ddim yma" Kai, 10 oed<br>"fyddwn ni'n cael bwyd yn ystod bob sesiwn?" Tegan, 13 oed<br>"Mae hyn yn grêt i'r plant, ac mae galw mawr amdano fo", preswylydd sydd wedi symud i mewn yn ddiweddar<br>"Pan 'da chi yma, 'da ni ddim yn diflasu, ac mae'n cadw ni allan o drwbwl" Tom, 15 oed<br>"Dyma'r unig **ymarfer** dwi'n ei wneud rŵan" Dan, 12 oed<br>"Fydd hyn ymlaen bob dydd yn yr Haf?" Frankie, 12 oed | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | “’Da ni’n gwerthfawrogi’r amser a’r ymdrech ’da chi’n ei wneud” Dan, rhiant diolchgar<br><br>**Parc Riverside (Prosiect Sipsiwn a Theithwyr)**<br><br>Cyfanswm y sesiynau: 31<br>Oedran: 5-16 Oedran cyfartalog 15<br>Nifer Gyfartalog y Mynychwyr: 9 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn fechgyn: 9 (ni chafwyd unrhyw enethod hyd at dair wythnos yn ôl, pryd y mynychodd 3 o enethod sydd wedi parhau i fynychu wedyn)<br>Sylwadau<br>“Ydach chi am ddod bob wythnos, am mai dyma’r unig bêl-droed ’da ni’n ei gael, gan fod neb eisiau ‘Pikeys’ yn eu clybiau neu yn eu hysgolion” Paddy, 15 oed<br>“Does dim byd i ni ei wneud yma” Mikey, 12 oed<br>“Mae’n lladdfa trio cael o’ ’ma am fod y llwybr yn llawn chwyn ac wedyn mae rhaid i ni groesi’r ffordd fawr” Eric, 8 oed<br><br>**Uned Gyfeirio Disgyblion Plas Derwen (Queensferry)**<br><br>Cyfanswm y sesiynau 38<br>Oedran: 11-16 Oedran cyfartalog: 14<br>Nifer Gyfartalog y Mynychwyr: 12 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn fechgyn: 12 Ychydig iawn | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | o enethod sydd o fewn system, sy'n golygu bod cael genethod ym mynychu yn rhywbeth prin.<br>Sylwadau<br>"Mae'n codi ysbryd pawb pan fyddwn ni'n gweld Cicio i Blant yn cyrraedd" Linda, aelod staff<br>"Dwi wrth fy modd efo hyn, dwi'n edrych ymlaen ato fo bob wythnos" Alfie, 14 oed<br>"Tydi Stevie byth yn cymryd rhan mewn unrhyw beth ar wahân i hyn" Ms B, aelod staff<br>"Mae'r plant hŷn yn ymateb yn wirioneddol dda i hyn" Dirprwy Bennaeth<br><br>**Ysgol Maes Hyfryd – Prif Ffrwd a'r 6ed Dosbarth**<br><br>Cyfanswm y sesiynau: 42<br>Oedran: 11-18 Oedran cyfartalog: 15<br>Nifer Gyfartalog y Mynychwyr: 41 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn fechgyn: 26 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn enethod: 15<br>Sylwadau<br>"Mae Cicio i Blant yma, mae pob dim yn iawn yn y byd" Pennaeth y 6ed Dosbarth<br>"Roedd pêl-droed yn arfer bod y peth yr oeddwn i'n hoffi leiaf o ran chwaraeon, dyma fy hoff beth erbyn hyn" Charlie, 14 oed<br>"Mae hyn yn dda i ni a'r disgyblion fel ei gilydd" Ms H, aelod staff<br>"Dwi'n edrych ymlaen am hyn drwy'r wythnos" Y, 13 oed | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | "Fyddai'n bosib inni gael y dis cyfarwyddiadau Cymraeg os gwelwch yn dda? Gan fod gennym blant sydd ddim yn cyfathrebu, ac mi fyddai hyn yn helpu cymaint" Ms H, aelod staff<br>"Yr iâr ffynci ydi'r gweithgaredd cynhesu gorau erioed" Evan, 15 oed<br>"Dwi'n ymarfer yng ngardd fy Nain i baratoi ar gyfer hyn" Logan, 12 oed<br><br>**Ysgol Pen Coch (Y Fflint)**<br><br>Cyfanswm y sesiynau:16<br>Oedran: 5-11 Oedran cyfartalog: 10<br>Nifer Gyfartalog y Mynychwyr: 44 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn fechgyn: 29 Nifer Gyfartalog y Mynychwyr a oedd yn enethod: 15.<br>Sylwadau<br>"Y diwrnod gorau o'r wythnos" Morgan, 11 oed<br>"Y rhan orau o'r wythnos i mi ydi pan 'da chi'n dod a 'da ni'n cael gêm" Alfie, 11 oed<br>"Mae'r iâr ffynci wirioneddol yn denu sylw'r plant ac mae'r ffaith bod 'na iâr rwber yn wych" Mrs H, aelod staff<br>"'Da ni'n cael trafferth i'w cael nhw i ymarfer, ond unwaith mae'r iâr yn dod i'r golwg, mae pawb yn ymuno" Ms H, aelod staff | | |
| 2. | Mae'r agenda chwaraeon yn helpu i sicrhau | | | AYP – cyllid blynyddol gan Chwaraeon Cymru, cytundeb mewn egwyddor ar gyfer 2019-20 | Ni chafodd unrhyw rai eu nodi | Ni chafodd unrhyw rai eu nodi |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant | | | (Campau'r Ddraig, 5X60, arweinyddion meysydd chwarae, y filltir ddyddiol)<br><br>Lles Ieuenctid ac Anabledd – cyllid blynyddol gan Teuluoedd yn Gyntaf<br><br>Chwaraeon Anabledd – cytundeb i ariannu hyd at 2021<br><br>'Parklives' – cyllid StreetGames, cais blynyddol<br><br>Ffit, Bwyd a Darllen ('Fit, Fed & Read') trwy gyllid allanol, mewn partneriaeth â StreetGames.<br><br>Hybiau Cymunedol - amryw fidiau unigol am gyllid Chwaraeon Cymru<br><br>Darpariaeth hanner tymor Chwaraeon Cymunedol – gweithgareddau ychwanegol fel tripiau i leoliadau yn yr ardal leol i bobl ifanc gael mynediad iddynt, fel dringo, go-certio, nofio a gweithgareddau eraill trwy amryw fidiau grant.<br>Actif 4 – 16  Caiff plant sydd ar y cynllun fynediad i gyfleusterau Hamdden a Llyfrgelloedd AURA am gost is, ac ar raddfa debyd uniongyrchol is.<br>Sesiynau llawr sglefrio Hamdden a Llyfrgelloedd AURA yn arbennig ar gyfer plant ag anableddau. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ail-agorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed.<br><br>Cynhelir Ysgol Goedwig erbyn hyn, am 4 diwrnod yr wythnos, sy'n cynnwys 2 ddiwrnod ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, diwrnod ar gyfer y rheiny sy'n mynychu'r UCD, ynghyd â diwrnod ar gyfer plant dan 5, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff ei staffio ar y cyd gan weithwyr teulu Dechrau'n Deg a gweithwyr ieuenctid.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch Sir y Fflint yn gwbl weithredol unwaith eto, ac mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n cael pethau'n anodd o safbwynt eu llesiant. Darperir grwpiau cymdeithasol a chymorth i fynd i mewn i addysg, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth.<br><br>Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, ac yn darparu | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol.<br><br>Cyngor Ieuenctid – Mae'r Cyngor Ieuenctid yn rhoi llais a chynrychiolaeth i bobl ifanc 11-25 oed yn Sir y Fflint, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cefnogi ac yn llywio gwaith cabinet Cyngor Sir y Fflint. Caiff y Cyngor Ieuenctid ei lywio gan CCUHP a'r Safon Cyfranogiad Cenedlaethol, ac maent wrth wraidd ei waith. Mae'n ceisio eu hyrwyddo ynghyd ag addysgu pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn eu cylch ym mhob agwedd ar eu gwaith a'u gweithgareddau.<br><br>Mae Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bawb, ac yn hwyluso grwpiau a dargedir ac unigolion na fyddent yn cael mynediad i ddarpariaeth mynediad agored, neu fod arnynt angen cefnogaeth arbenigol pellach. Mae hyn yn cynnwys gwaith LGBTQ+ ynghyd â recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod y gallu i gyflenwi ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn ategu ein gwaith, ond hefyd yn hyrwyddo ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru a'i hiaith trwy'r ddarpariaeth gyfan. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth - Mae darpariaeth Ddatgysylltiedig ac Allgymorth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn cyfarfod gyda phobl ifanc yn y cymunedau lle maent yn cyfarfod a chymdeithasu. Mae'r tîm Datgysylltiedig yn cefnogi sesiynau chwaraeon allgymorth Hamdden a Llyfrgelloedd Aura, yn cyfarfod a siarad â phobl ifanc, yn darparu gwybodaeth iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.<br><br>**Sylw gan Gyngor Cymuned Trelawnyd**: Un o lwyddiannau'r ddarpariaeth annibynnol yn y gymuned hon yw ei anffurfioldeb. Yn rhy aml, bydd darpariaeth chwarae i bobl ifanc/plant yn cael ei llethu gan gwricwlwm diangen. Chwarae'n rhydd yw un o'r agweddau mwyaf creadigol yn natblygiad plant. Mae amgylcheddau diogel lle gall plant ddysgu trwy chwarae, ynghyd â defnyddio eu dychymyg eu hunain, yn bwysicach na digwyddiadau sydd wedi'u trefnu, a chanddynt reolau a chyfyngiadau. Rhaid cofio hefyd nad yw pob plentyn yn mwynhau chwaraeon - yn enwedig y chwaraeon cystadleuol, traddodiadol, fel pêl-droed ac ati. Mae angen amrywiaeth o gyfleusterau a phrofiadau sy'n gallu diddanu a herio pobl ifanc. | | |
| 3. | Mae'r agenda diwylliant a'r celfyddydau yn helpu i sicrhau | | | Mae Theatr Clwyd yn darparu'r canlynol am gost isel/am ddim, ac yn gweithio mewn partneriaeth i ganiatáu i bob plentyn ac unigolyn ifanc gael cyfleoedd diwylliannol ac artistig. | Ni chafodd unrhyw rai eu nodi | Ni chafodd unrhyw rai eu nodi |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | bod digon o weithgareddau hamdden yn cael eu darparu i blant | | | Gweithdai Drama Wythnosol<br><br>Cynhelir gweithdai drama drwy gydol yr wythnos (Dydd Mawrth, Mercher, Iau a Sadwrn) i blant a phobl ifanc 4 - 25 oed yn ystod amser tymor (35 wythnos)<br><br>Am gost isel gyda gostyngiad o 20% i deuluoedd sy’n derbyn budd-daliadau<br><br>Chwarae o dan oruchwyliaeth<br><br>Grŵp Iaith Gymraeg ar ddyddiau Mawrth<br><br>230 o leoedd ar gael<br><br>Cyfanswm o 16.5 awr yr wythnos<br><br>Gweithdai Drama Wythnosol ‘FUSE’ / ‘FUSE On’<br><br>Cynhelir dau grŵp drama wythnosol ar nosweithiau Llun i blant a phobl ifanc 7 – 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol<br><br>Yn ystod amser tymor (35 wythnos y flwyddyn)<br><br>Am gost isel gyda gostyngiad o 20% i deuluoedd sy’n derbyn budd-daliadau | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chwarae o dan oruchwyliaeth<br><br>30 o leoedd ar gael<br><br>2.5 awr yr wythnos<br><br>Gweithdai Drama Wythnosol Dyffryn Maes Glas<br><br>Cynhelir gweithdai yn Nyffryn Maes Glas mewn partneriaeth a Darpariaeth Ieuenctid Integredig<br><br>I bobl ifanc 11+ oed<br><br>Yn rhad ac am ddim<br><br>Chwarae o dan oruchwyliaeth<br><br>25 o leoedd ar gael<br><br>2 awr yr wythnos yn ystod amser tymor<br><br>Ysgol Haf<br><br>Cynhaliwyd y rhaglen weithgareddau haf yn y theatr ar gyfer plant a phobl ifanc 6 – 16 oed (3-4 wythnos yn ystod gwyliau’r haf). | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Am gost isel gyda gostyngiad o 20% i deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau<br><br>Chwarae o dan oruchwyliaeth<br><br>250 o leoedd ar gael<br><br>Mae'r oriau'n amrywio o 6 – 8 awr yr wythnos<br><br>Gŵyl Gelfyddydau i'r Teulu<br><br>I blant a'u teuluoedd<br><br>Gŵyl gelfyddydau dri diwrnod flynyddol gyda sioeau, ffilmiau, gweithgareddau cyfranogol, perfformiadau rhyngweithiol mewn amryw 'genres'<br><br>Gweithgareddau cyfranogol a pherfformiadau rhyngweithiol mewn mannau cyhoeddus, yn rhad ac am ddim<br><br>Tocynnau i'r sioeau am bris gostyngedig, gyda phrisiau'n amrywio rhwng £1.00 ac uchafswm o £5.00<br><br>Cafwyd dros 5,000 o fynychwyr yn 2018<br><br>Rhaglen i'r Teulu yn Theatr Clwyd I blant a'u teuluoedd | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tocynnau am brisiau gostyngedig<br><br>Rhaglen fisol o sioeau a gweithgareddau i gynulleidfaoedd teuluol<br><br>Rydym yn rhedeg Clwb Teulu i deuluoedd i roi gwybod am gynyrchiadau a gweithgareddau a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Stori a Chân – sesiwn stori a chân wythnosol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant hyd at 4 oed a'u rhieni, yn ystod amser tymor<br><br>Cyflenwir gan Cymraeg i Blant mewn partneriaeth â Theatr Clwyd.<br><br>Chwarae o dan oruchwyliaeth<br><br>Yn rhad ac am ddim<br><br>Tua 20 o fynychwyr bob wythnos<br><br>Un awr yr wythnos<br><br>Rydym hefyd yn cynnig Gŵyl Ysgolion Sir y Fflint, amryw brosiectau celfyddydau gweledol, gan gynnwys Criw Celf, Portffolio, ac ar hyn o bryd, | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sesiwn ddrama wythnosol yn Uned Gyfeirio Disgyblion Shotton.<br><br>Yn 2018, cynigiwyd ysgol haf am ddim yn Nyffryn Maes Glas (ariannwyd hwn gan Barc Treftadaeth ac Amgueddfa Dyffryn Maes Glas). Gobeithir y gallwn gynnig un arall eleni, ond nid yw wedi'i gadarnhau hyd yma. Hefyd, rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Darpariaeth Ieuenctid Integredig ac yn darparu gweithdai drama yng Nghlwb Ieuenctid Saltney.<br><br>**Theatr Clwyd / Gwaith Cymunedol yn canolbwyntio ar CHWARAE: 2021-2022:**<br><br>**Yr Hwb Creadigol** Cynhaliodd Theatr Clwyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Hwb Haf yn 2020 a 2021 ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn Sir y Fflint. Cefnogwyd 160 o bobl ifanc trwy'r rhaglen waith hon a chyflogwyd 32 o artistiaid llawrydd. *Hanner tymor Chwefror 2021:* Cawsom weithio gyda 76 o bobl ifanc o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Cyflogwyd 18 o artistiaid llawrydd gennym (cyfarwyddwyr, dylunwyr, artistiaid gweledol, ac actorion a cherddorion) i arwain gweithdai creadigol gyda'r bobl ifanc. Roedd hyn i gyd yn rhad ac am ddim. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Lleisiau Clwyd Voices -** Sefydlwyd partneriaeth gennym gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Trwy brosiect peilot newydd, gweithiwyd gyda 10 artist a 30 o bobl ifanc a gyfeiriwyd atom trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn brosiect peilot i annog pobl na fyddent efallai'n cael eu clywed neu na fyddai pobl yn gwrando arnynt. Lluniwyd y prosiect hwn fel y gallwn wneud ymdrech wirioneddol i wneud y theatr yn gartref i bawb, i wrando ar artistiaid a phobl ifanc a defnyddio'r celfyddydau creadigol fel offeryn i hybu lles. Rhoddwyd Theatr Clwyd ar y rhestr fer ar gyfer 'Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2022' am ein partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Mae gennym bellach 32 o bobl ifanc o'r teuluoedd hyn o fewn ein cwmnïau wythnosol, ar fwrsariaethau a ariennir yn llawn, fel rhan o'n gwaith i sicrhau bod y grwpiau hyn yn hygyrch i bawb. Rydym am gymryd ein hamser i ddatblygu ein partneriaethau gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych a Wrecsam dros y flwyddyn nesaf, i sefydlu sylfaen gref cyn cyflenwi'r prosiect yn y siroedd hyn. Ystyrir mai Sir y Fflint yw'r meincnod a'r flaenoriaeth.<br>Dyfyniadau gan bobl ifanc: 'mae'n gyfle i gael allan o'r tŷ, i gael mwy o ryddid, i gael amser i mi fy hun… Mae o wedi bod yn bwysig i mi am fy mod i | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | byth yn cael cyfle i wneud pethau fel hyn oherwydd fy mod i'n gorfod gofalu am mam fel arfer.'<br><br>**Gaeaf Llawn Lles -** Rhaglen a oedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a 'City of Sanctuary'. Comisiynwyd artistiaid gennym i greu pecyn lles dwyieithog a anfonwyd i gartrefi lleol ledled Sir y Fflint. Rydym hefyd yn darparu gwersi cerdd i unigolion, ac yn agor rhagor o leoedd bwrsariaeth o fewn ein gweithgareddau wythnosol. Rydym yn ymestyn ein cynnig o ran ein gweithdy wythnosol i unrhyw un sy'n 4-25 oed ar gyfer rhai na fyddent fel arfer yn cymryd rhan. Ariannwyd hyn gan gronfa Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru.<br><br>Bright Sparks – Mae rhaglen *Bright Sparks* yn teithio o amgylch ysgolion cynradd lleol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor, bu taith 8 wythnos ar thema pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Maths) yn ymweld ag ysgolion cynradd. Roedd *Bright Sparks* yn targedu disgyblion cyfnod allweddol 2 (blynyddoedd 3/4/5/6). Darpariaeth ddwyieithog oedd hon - a oedd yn rhad ac am ddim i ysgolion gyda chymorth cyllid Ymestyn yn Ehangach. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Dyfyniadau o'r prosiect:<br>'Dwi'n hoffi màths erbyn hyn!'<br>'Maen nhw fel arfer eisiau mynd i'r toiled 3 i 4 gwaith y bob sesiwn, ond doedd neb eisiau mynd heddiw!'<br><br>Partneriaeth Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (ThCIC) - Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â ThCIC i greu rhaglen allgymorth mewn ysgolion difreintiedig yn Ne Cymru. Roedd ein tîm Ymgysylltiad Creadigol wedi hyfforddi cronfa o artistiaid i gyflenwi'r gwaith hwn. Roedd hyn yn cyflawni nodau ac amcanion ThCIC o ran amrywio eu hensemble o bobl ifanc. Buom ar daith gyda ThCIC, gan gynnal clyweliadau ym mhob rhan o Gymru ar gyfer Ensemble 2022. Mae gennym gast o 25 o bobl ifanc eithriadol o dalentog o bob cwr o Gymru, ynghyd ag 20 o bobl ifanc eraill ar gyfer y rhaglen Llwybrau Proffesiynol i ddatblygu sgiliau pobl ifanc ym maes y theatr. Daeth y bobl ifanc i breswylio dros y Pasg a chael cyfle i edrych ar gynhyrchiad Milky Peaks yn Theatr Clwyd. Bydd yr ensemble yn agor eu cynhyrchiad yn Theatr Clwyd cyn iddo drosglwyddo i Gaerdydd yr haf hwn. Mae cynlluniau bwrsariaeth ar gael ar gyfer yr holl gyfleoedd hyn.<br><br>Rhaglennu Cymunedol – Mae gennym dîm o weithwyr cyswllt sydd wrthi ar hyn o bryd yn archwilio ardaloedd y Fflint, Bwcle, Yr Wyddgrug, | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cei Connah a Shotton. Nod hyn yw archwilio partneriaethau at y dyfodol gyda grwpiau cymunedol lleol, ac iddynt benderfynu beth ddylai Theatr Clwyd ei raglennu yn y dyfodol. Fel rhan o'r broses hon rydym yn ehangu ein gorwelion ac yn gallu canfod cyfleoedd a phartneriaethau newydd o fewn yr ardal leol.<br><br>Cymdeithas Tai – Buom yn gweithio gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alun a 'Youth Sheds' a redir gan Gymdeithas Tai Cynefin, gan feithrin hyder a dyheadau yn y gymuned. Roeddem yn llwyddiannus gyda'n cais Celfyddydau a Busnes ar gyfer prosiect peilot o'r enw STRYD/STREETS gyda Chymdeithas Tai Cartrefi Conwy, gan weithio gyda phobl ifanc 18-30.<br><br>Prosiect Digartrefedd Cudd - Aethom ati hefyd i gychwyn perthynas graidd â lloches gefnogaeth tai Llys Emlyn yn Nhreffynnon ar gyfer pobl ifanc. Mae gennym 5 o bobl ifanc o Lys Emlyn ar hyn o bryd sy'n rhan o'n theatr ieuenctid trwy gynllun bwrsariaeth. Mae'r prosiect hwn wedi galluogi pobl ifanc sydd â diddordeb yn y celfyddydau, neu sydd eisiau rhoi cynnig ar rywbeth cwbl newydd, i gael mynediad i fan diogel.<br><br>Addysg - rydym yn parhau i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion sy'n defnyddio'r celfyddydau fel offeryn | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | i addysgu ac i rymuso dysgu. Mae'r rhain yn brosiectau sy'n caniatáu i bobl ifanc ddysgu yn y modd y byddent yn hoffi gwneud hynny. Y prosiectau yr ydym yn eu cynnal ar hyn o bryd, ac wrthi'n eu datblygu, yw 'Bright Sparks', 'Consent', Digartrefedd Cudd, 'Magic Potions Literary' a Cyfiawnder Mewn Diwrnod.<br><br>Rydym yn parhau â'n cysylltiadau hirdymor ag ysgolion Glanrafon, Sychdyn a Bryn Gwalia. Bu ein Gweithiwr Cyswllt Dawns yn mynd i mewn i'r ysgolion i gyflenwi gweithdai creadigol. Rydym yn parhau i weithio gyda rhaglen bartneriaeth Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru o fewn yr ysgolion hyn i ddatblygu cynulleidfaoedd dawns ar gyfer Taith y Gwanwyn a'r rhaglen Darganfod Dawns. Byddem yn gweithio gyda thua 200 o bobl ifanc bob blwyddyn trwy'r maes gwaith hwn.<br><br>Rydym yn parhau â'n Theatr Ieuenctid Cymraeg gydag Ysgol Maes Garmon, a arweinir gan un o'n Gweithwyr Cyswllt Iaith Gymraeg – mae gennym 18 o gyfranogwyr yn y cwmni erbyn hyn.<br><br>Mae ein partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr yn parhau i dyfu gyda myfyrwyr MA o'r cyrsiau Ymarfer Cynhyrchu Creadigol a Churadurol yn dod i gyfarfod ein timau Marchnata ac Ymgysylltu Creadigol i drafod datblygu cynulleidfaoedd. | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Disgwylir y bydd y twf yn y maes gwaith hwn yn cyflymu o ganlyniad i'r bartneriaeth â Neuadd William Aston.<br><br>Ein Cwmnïau Gwneud Theatr Cymunedol Wythnosol, gan gynnwys Cwmni25/35/65 - Mae pob un o'n gweithdai creadigol wythnosol i blant 4+ wedi adleoli erbyn hyn i'n cartref newydd yn Sgwâr Daniel Owen. Mae gennym 16 o grwpiau sy'n dysgu am wneud theatr a bod yn greadigol. Mae gennym 5 o gwmnïau NEWYDD, ar gyfer plant 12-17 oed, oherwydd y galw am weithgareddau ar gyfer yr ystod oedran hon. Mae pob cwmni'n gweithio tuag at 'Festival EXRACTS' pryd y byddant yn perfformio yn Theatr Mix. Maent yn gweithio'n greadigol ar sgriptiau 'Curtain up' fel darnau ensemble. Mae gennym gyfanswm o 221 o aelodau o fewn ein cwmnïau cymunedol.<br>Gweithdy Rheoli Llwyfan Wythnosol – Arweinir y gan dimau cynhyrchu Theatr Clwyd, ac mae'n cyflwyno pobl ifanc i faes rheoli llwyfan a theatr technegol. Mae gan y grŵp 11 o bobl ifanc 12-17 oed ar hyn o bryd, y mae rhai ohonynt wedi ennill lleoedd yn Sefydliad Celfyddydau Perfformio Lerpwl (LIPA) yn dilyn y profiad a gawsant yn y sesiynau. Mae'r grŵp yn dal i dyfu.<br><br>PWER – Fel parhad o'r grŵp y cawsom gyfarfod ynddo trwy 'Mold Riots' yn ystod haf 2019, rydym | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn dal i gynnal sesiwn creadigol wythnosol gyda 4 o bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig sy'n gweithio'n agos â'r tîm Darpariaeth Ieuenctid. Rydym bellach wedi ehangu'r grŵp i gynnwys 12 o ferched ifanc mewn partneriaeth a thîm 'Sorted' a thîm Darpariaeth Ieuenctid Sir y Fflint: nid yw 1/3 o'r plant ifanc hyn yn mynychu'r ysgol neu unrhyw leoliad addysgol arall.<br>'We Mind the Gap' – Ni yw'r sefydliad sy'n lletya'r cynllun hyfforddiant wythnosol ar gyfer rhaglen 'We Mind the Gap' ar hyn o bryd. Rydym wedi darparu ar gyfer 6 o ferched ifanc eleni, ac ers mis Ionawr, rydym wedi dechrau cefnogi Rhaglen Dynion Sir y Fflint.<br><br>Grŵp Llywio Celfyddydau Ieuenctid - Fel rhan o'n Prosiect Datblygu Cyfalaf, rydym wedi creu Grŵp Llywio Celfyddydau Ieuenctid a fydd yn cefnogi'r gwaith o gomisiynu celf ar gyfer yr hwb ieuenctid, ynghyd â mannau iechyd a lles. Mae gennym 14 o bobl ifanc y mae pob un ohonynt wrth eu boddau â'r celfyddydau gweledol fel rhan o'r grŵp hwn. Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod bob 6 mis.<br><br>Teuluoedd Ffoaduriaid 'City of Sanctuary' – Rydym wedi dod yn Theatr Noddfa. Ym mis Hydref, fe aethom â theuluoedd o ffoaduriaid o Sir y Fflint a Phorthaethwy ar daith bws i ymweld â 'With Amal' fel rhan o Ŵyl Ryngwladol Manceinion. Pyped | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | anhygoel yw Amal, sydd wedi bod yn teithio Ewrop i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng ffoaduriaid. Gan weithio gyda 'City of Sanctuary' Sir y Fflint, crëwyd blanced Gymreig hardd gennym fel anrheg iddi.<br>Dyfyniadau o'r hyn a ddywedodd y bobl ifanc:<br>'Dyma oedd fy nhro cyntaf ar ôl symud i Gymru, cael mynd i Loegr'<br>'Hwn oedd y trip gorau erioed – gawn ni wneud hyn eto plîs?'<br>Cerddoriaeth<br>Rydym yn adfer ein rhaglen gerddoriaeth mewn ysgolion ac o fewn y gymuned. Mae gennym tua 800 o bobl ifanc yn derbyn gwersi cerdd bob wythnos, ac mae 6 o'n hensembles wedi ailgychwyn. Erbyn gwanwyn 2023, disgwyliwn y byddem yn cyflenwi'r profiadau cerddorol cyntaf i bob unigolyn ifanc yn y sir.<br><br>Cynnig Theatr i'r Teulu<br>O 2021-2022 roedd gan Theatr Clwyd 17 o ddarnau o waith theatr proffesiynol a oedd yn ymweld â'n holl fannau theatr i deuluoedd a phobl ifanc. Cedwir pris y tocynnau'n £8 ar gyfer bob perfformiad.<br><br>Gŵyl Gelfyddydau i'r Teulu<br>Roedd yr Ŵyl Gelfyddydau i'r Teulu yn 2021 yn wahanol, gyda'i mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r sylw ar yr awyr agored. Cam pwysig hefyd oedd cael un o'n cynyrchiadau ein hunain yn yr ŵyl am y | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | tro cyntaf. Roedd Gwrach yr Iâ/'The Ice Witch', yn cynnig sioeau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg bob dydd yn ystod yr ŵyl, a chafwyd y cyfle i berfformio i gynulleidfaoedd byw am y tro cyntaf, ar ôl bod ar-lein yn unig y Nadolig diwethaf. Cafwyd ychydig dros 2,000 o bobl yn mynychu'r penwythnos.<br><br>Tair Sioe Nadolig i'r Teulu<br>Mae Theatr Clwyd wedi mynd ati i adfywio cyfres o dair sioe Nadolig a gyd-gynhyrchwyd gyda Pontio. Tair sioe wahanol i'r teulu cyfan eu mwynhau. Fe gânt eu perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Panto<br>Trefnodd Theatr Clwyd ddwy daith a ariannwyd ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd a atgyfeiriwyd trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddynt gael dod i brofi Panto gyda'i gilydd. Manteisiodd 60 o deuluoedd ar y cyfle hwn yn rhad ac am ddim. Cynhaliwyd sesiwn Holi ac Ateb gennym hefyd gyda'r actorion, fel y gallai'r bobl ifanc gael cyfle i gyfarfod y tîm a chael eu hysbrydoli. | | |
| 4. | Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn rhoi cyfleoedd i | | | Gwnaed sylw gan y Tîm Cyfranogiad o fewn Darpariaeth Ieuenctid Integredig ac Addysg a Phobl Ifanc y caiff pobl ifanc eu cyfeirio at gyfleusterau lleol i gael cyfle i gymryd rhan mewn | Ni chafodd unrhyw rai eu nodi | Ni chafodd unrhyw rai eu nodi |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasu | | | gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Mewn rhai o'r darpariaethau mynediad agored i bobl ifanc, ceir cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon.<br><br>Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ail-agorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed.<br><br>Cynhelir Ysgol Goedwig erbyn hyn, am 4 diwrnod yr wythnos, sy'n cynnwys 2 ddiwrnod ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, diwrnod ar gyfer y rheiny sy'n mynychu'r UCD, ynghyd â diwrnod ar gyfer plant dan 5, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff ei staffio ar y cyd gan weithwyr teulu Dechrau'n Deg a gweithwyr ieuenctid.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch yn gwbl weithredol unwaith eto, ac mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n cael pethau'n anodd o safbwynt eu llesiant. Darperir grwpiau cymdeithasol a chymorth i fynd i mewn i addysg, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth.<br><br>Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, ac yn darparu strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol.<br><br>Cyngor Ieuenctid – Mae'r Cyngor Ieuenctid yn rhoi llais a chynrychiolaeth i bobl ifanc 11-25 oed yn Sir y Fflint, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cefnogi ac yn llywio gwaith cabinet Cyngor Sir y Fflint. Caiff y Cyngor Ieuenctid ei lywio gan CCUHP a'r Safon Cyfranogiad Cenedlaethol, ac maent wrth wraidd ei waith. Mae'n ceisio eu hyrwyddo ynghyd ag addysgu pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn eu cylch ym mhob agwedd ar eu gwaith a'u gweithgareddau.<br><br>Mae Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bawb, ac yn hwyluso grwpiau a dargedir ac unigolion na fyddent yn cael mynediad i ddarpariaeth mynediad agored, neu fod arnynt angen cefnogaeth arbenigol pellach. Mae hyn yn cynnwys gwaith LGBTQ+ ynghyd â recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod y gallu i gyflenwi ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn ategu ein gwaith, ond | | |

| Cyfeirif All | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd yn hyrwyddo ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru a'i hiaith trwy'r ddarpariaeth gyfan.<br><br>Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth - Mae darpariaeth Ddatgysylltiedig ac Allgymorth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn cyfarfod gyda phobl ifanc yn y cymunedau lle maent yn cyfarfod a chymdeithasu. Mae'r tîm Datgysylltiedig yn cefnogi sesiynau chwaraeon allgymorth Hamdden a Llyfrgelloedd Aura, yn cyfarfod a siarad â phobl ifanc, yn darparu gwybodaeth iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. | | |

**Darparu Cyfleoedd Chwarae dan Oruchwyliaeth**

**Lle bo'r Awdurdod Lleol wedi asesu lleoliadau yn rhan o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sut yr aseswyd y lleoliadau hyn o ran ansawdd y cyfleoedd chwarae maent yn eu darparu ac yn eu cynnig?**
Caiff y ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth hon ei hadolygu'n flynyddol gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC) trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cwblhau rhestrau gwirio blynyddol i sicrhau bod pob lleoliad yn cyflawni'r gofynion o ran ansawdd, yn ôl hynny a bennir gan yr awdurdod lleol. Bydd unrhyw ddarpariaeth nad yw'n cyflawni'r holl ofynion hyn yn derbyn cymorth gan CPCKC trwy Gynllun Gweithredu.

**Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae**

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried pa gyfleoedd chwarae sy'n codi tâl ac i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y taliadau hyn wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant o deuluoedd incwm isel fel y nodir yn y Canllawiau Statudol.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn | Bodlonwyd yn llawn |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sydd o deuluoedd incwm isel | | | | | Caiff ei ddiweddaru gyda gwybodaeth o gyfrifiad 2021<br><br>O ran yr holl weithgareddau a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid, bu'r rhain am ddim neu am gost isel. Mae hyn oherwydd y ddarpariaeth o grantiau allanol a chyfuno adnoddau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cynhwysol |
| 2. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig | | | | | |
| 3. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig | | | | | |
| 4. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r | | | | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | nifer o blant anabl a'r rheini ag anghenion penodol | | | | | |
| 5. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi argaeledd darpariaeth am ddim | | | | | |
| 6. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r lleoliadau sy'n darparu cyfleoedd chwarae am ddim / cost isel | | | | | |
| 7. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r darpariaethau lle mae grantiau neu gymorthdaliadau ar gael i ddarparwyr cyfleoedd chwarae | | | Mae Cytundeb Ariannu AURA gyda CSyFf yn cynnwys elfen o gymorth ar gyfer arolygu a chynnal y swyddogaeth Dylunio Chwarae. | | |
| 8. | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu trafnidiaeth â chymhorthdal i blant sy'n teithio i gyfleoedd chwarae | | | Yn achlysurol gyda Datblygu Chwaraeon AURA a Darpariaeth Ieuenctid Integredig. Diwrnodau allan/cyrsiau ac ati. | | |

**Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae**

**Sut mae’r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar gyfleoedd chwarae am ddim neu am gost isel?**
Yn 2020, 2021 ac yn 2022, bu’r tîm Datblygu Chwaraeon, ynghyd â’r llyfrgelloedd, yn darparu prydau am ddim yn ystod clybiau gwyliau haf, fel ‘ffit, bwyd a darllen’ (‘fit, fed & read’) i gefnogi’r agenda ehangach o ran mynd i’r afael â phlant sy’n llwgu yn ystod y gwyliau. Darperir y rhan fwyaf o’r bwyd trwy Café Aura, ond hefyd trwy bartneriaethau fel y rheiny gyda grwpiau eglwysi, y Co-op a Tesco.

Roedd y tîm Datblygu Chwarae wedi parhau i gyflenwi darpariaeth am ddim lle ceir mynediad o fewn ysgolion a chymunedau, i gefnogi ein plant a’n pobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.

Mae Tîm Datblygu Chwarae’r Awdurdod Lleol wedi gweithio trwy gydol y pandemig lle’n bosib, gan ddilyn canllawiau cyfreithiol ar lefel genedlaethol a lleol.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Bu rhaid wynebu sawl her o ganlyniad i’r pandemig y llwyddodd yr Awdurdod Lleol i’w rheoli er mwyn dal ati i gyflenwi darpariaeth chwarae, h.y. rheoli risg trwy ddilyn holl ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru/cyfathrebu gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Addysg trwy’r AALl.

**Sylwadau:**
Mae’r Awdurdod Lleol wedi dal ati i weithio i gyflenwi ei gynlluniau Gweithredu PSA trwy barhau i gyflenwi sesiynau chwarae/chwaraeon/diwylliannol a hamdden trwy gydol y pandemig.

**Mater F: Mynediad i le/darpariaeth**

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried yr holl ffactorau sy'n helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i chwarae neu symud o amgylch eu cymunedau.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn rhannol. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod wedi'i ddiweddaru o nifer y parthau 20 milltir yr awr/parthau diogelwch ysgolion mewn ardaloedd preswyl | | | **Cyngor Cymuned Trelawnyd**: Mae mannau chwarae a chaeau chwaraeon diogel yn bwysig, yn ogystal â mannau chwarae anffurfiol hefyd. Gallai mannau o'r fath fod yn fannau wrth ymyl garejys neu ar strydoedd lle ceir mesurau gostegu traffig a chyfyngiadau cyflymder o 20mya. | Prinder o fannau chwarae anffurfiol | Gwybodaeth i ddilyn gan y Gwasanaethau Stryd / trafnidiaeth |
| 2. | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddull o asesu effaith mesurau lleihau cyflymder a mesurau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd ar y cyfle sydd gan blant i chwarae y tu allan yn eu cymunedau | | | **Cyngor Cymuned Trelawnyd**: Mae mannau chwarae a chaeau chwaraeon diogel yn bwysig, yn ogystal â mannau chwarae anffurfiol hefyd. Gallai mannau o'r fath fod yn fannau wrth ymyl garejys neu ar strydoedd lle ceir mesurau gostegu traffig a chyfyngiadau cyflymder o 20mya | Prinder o fannau chwarae anffurfiol | |
| 3. | Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i leihau effaith negyddol ffyrdd a chyffyrdd prysur drwy | | | | A wneir ymgais i ymgynghori â cherddwyr a seiclwyr ynglŷn â hyn? Mae adborth a barn y | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyflwyno mesurau lleihau cyflymder a darparu mannau croesi/llwybrau diogel i gerddwyr a seiclwyr. | | | | defnyddwyr eu hunain yn hanfodol | |
| 4. | Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i wella'r mynediad sydd gan gerddwyr a seiclwyr i barciau, cyfleusterau chwarae awyr agored a chanolfannau hamdden lleol o ardaloedd preswyl | | | Mae AURA yn cynghori CSyFf y dylai mannau agored gynnwys llwybrau ar gyfer seiclo hefyd, wrth ymateb i ddatblygiadau arfaethedig o ran cynllunio. | A wneir ymgais i ymgynghori â cherddwyr a seiclwyr ynglŷn â hyn? Mae adborth a barn y defnyddwyr eu hunain yn hanfodol | |
| 5. | Mae potensial i'r Awdurdod Lleol gymryd camau pellach i leihau cyflymder traffig a gwella diogelwch ar y ffyrdd er mwyn hyrwyddo cyfleoedd chwarae | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ar y ffyrdd a/neu arian arall i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant seiclo i blant yn unol â safonau cenedlaethol | | | | Dim gwybodaeth fod hyn yn digwydd | |
| 7. | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ar y ffyrdd a/neu arian arall i ddarparu hyfforddiant diogelwch cerddwyr i blant | | | | | |
| 8. | Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd hygyrch a hysbys o gau ffyrdd dros dro fel bod mwy o blant yn gallu chwarae y tu allan i'w cartrefi | | | | | |
| 9. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at y *Llawlyfr Strydoedd* wrth ystyried datblygiadau newydd | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | a newidiadau i'r rhwydwaith priffyrdd/amgylchedd trefol | | | | | |
| 10. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â chanllawiau arfer da a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ddatblygu cyfleusterau cerdded a seiclo | | | | | |
| 11. | Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio data ar nifer yr anafiadau i gerddwyr sy'n blant a achosir gan ddamwain ar y ffordd i lywio penderfyniadau ynghylch lleoliad a chynllun ymyriadau sy'n helpu plant i symud o amgylch eu cymunedau yn annibynnol | | | | | |
| 12. | Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried yr angen i blant gael y cyfle i chwarae wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwariant ar drafnidiaeth | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyhoeddus a'r ffordd y caiff ei chynllunio | | | | | |
| 13. | Mae dealltwriaeth o ofynion plant anabl a darperir ar eu cyfer o fewn cynlluniau traffig a thrafnidiaeth | | | | | |

**Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau:**
**Er mwyn i blant a theuluoedd fanteisio ar gyfleoedd chwarae, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau mae angen iddynt wybod beth sy'n cael ei gynnig yn eu hardal.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. | Mae gan yr Awdurdod Lleol adran a nodir yn glir ar ei wefan sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae fel y'u disgrifir yn y Canllawiau Statudol (ardaloedd chwarae, darpariaeth chwarae, clybiau a'u hygyrchedd) | | | Gall Hamdden a Llyfrgelloedd AURA helpu yng nghyswllt yr wybodaeth a fynnir.<br><br>Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhan Datblygu Chwaraeon AURA o'r wefan.<br><br>Mae gwybodaeth am Gynllun Chwarae Haf y sir, ynghyd â'r holl ffurflenni cofrestru / ffurflenni cydsynio ar gael i rieni a gofalwyr trwy dudalennau gwe Cyngor Sir y Fflint, ac fe'u hamlygir fel eitemau o newyddion cyn ac yn ystod y cyfnodau y cyflenwir y cynllun chwarae.<br><br>Mae gan Hamdden a Llyfrgelloedd AURA adran Mannau Chwarae dynodedig lle gall cwsmeriaid chwilio am fannau chwarae, o fewn eu hardal leol a ledled y sir. Gweler: https://aura.wales/play-areas/ | Nid oes gan bob teulu fynediad i TG neu syniad o le i chwilio os yw hynny ar gael iddynt. Efallai nad ydynt yn deall Saesneg/Cymraeg. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol yn helaeth i chwilio am wybodaeth ynghylch gweithgareddau lleol a gellid eu defnyddio yn y cyswllt hwn, gan fod modd defnyddio'r swyddogaeth cyfieithu syml. Mae dosbarthu taflenni | Bydd gwybodaeth a chyfathrebu'n flaenoriaeth bwysig ar gyfer Fforwm Chwarae Strategol Sir y Fflint |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | trwy ysgolion yn fodd mwy effeithiol o gyfathrebu gwybodaeth mewn rhai ardaloedd. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15. | Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth am fynediad i gyfleoedd chwarae a chyswllt i gael cymorth os oes angen | | | Gall Hamdden a Llyfrgelloedd AURA ddarparu cymorth o ran y wybodaeth a fynnir. | Nodwyd fod angen ymhlith meysydd gwasanaeth a'r cyhoedd i gael gwybodaeth sy'n nodi'n glir pa wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael yn y sir.<br><br>Nid yw hyn yn cael cyhoeddusrwydd bob amser trwy Dewis neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Ni fydd bob amser yn cael ei rhannu ag ysgolion/ Canolfannau Teuluoedd ac ati, sy'n gallu cylchredeg y wybodaeth yn bellach | |
| 16. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi ac yn cyhoeddi digwyddiadau sy'n annog cyfleoedd chwarae a digwyddiadau i blant a theuluoedd | | | Gall AURA ddarparu cymorth yng nghyswllt y wybodaeth a fynnir ar gyfer llyfryn diwygiedig i gwsmeriaid. | Nodwyd yr amlygwyd gan yr ymgynghoriad hwn bod angen llunio ARWEINLYFR CHWARAE i rieni a gofalwyr, yn electronig ac mewn ffurf galed. Nid yw hyn yn cael cyhoeddusrwydd bob amser trwy Dewis neu blatfformau cyfryngau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cymdeithasol. Ni fydd bob amser yn cael ei rhannu ag ysgolion/ Canolfannau Teuluoedd ac ati, sy'n gallu cylchredeg y wybodaeth yn bellach | |
| 17. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n cyfrannu at agweddau cadarnhaol tuag at chwarae yn y gymuned | | | | Nid yw hyn yn cael cyhoeddusrwydd bob amser trwy Dewis neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Ni fydd bob amser yn cael ei rhannu ag ysgolion/ Canolfannau Teuluoedd ac ati, sy'n gallu cylchredeg y wybodaeth yn bellach | |
| 18. | Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi awgrymiadau defnyddiol a chymorth i rieni i'w helpu i annog eu plant i chwarae | | | | Nid yw hyn yn cael cyhoeddusrwydd bob amser trwy Dewis neu blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Ni fydd bob amser yn cael ei rhannu ag ysgolion/ Canolfannau Teuluoedd ac ati, sy'n gallu cylchredeg y wybodaeth yn bellach | |
| 19. | Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud defnydd eang o | | | Gwnaed hyn yng Ngronant, yn ardal wledig y Gogledd. | Efallai y gellid gwneud rhagor o safbwynt hyrwyddo? | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | arwyddion ar safleoedd i ddiogelu a hyrwyddo chwarae | | | | | |
| 20. | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r cyfryngau i'w hannog i roi portread cadarnhaol o blant yn chwarae yn yr ardal leol | | | Bydd AURA yn postio storïau newyddion cadarnhaol am y cydweithio â CSyFI yng nghyswllt mannau chwarae i blant ar ei blatfformau cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Yn nhermau man chwarae mynediad agored Gronant – ceir hanes o wneud hyn. Ymgysylltir â'r cyfryngau yn rheolaidd, ac mae llawer o ddigwyddiadau neu weithgareddau wedi cynnwys presenoldeb y cyfryngau ar y pryd, neu darparwyd adroddiadau ar ôl eu cynnal. | | |

**Mynediad i le/darpariaeth**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithio er mwyn sicrhau y gall plant symud o amgylch eu cymunedau er mwyn cynyddu eu gallu i fanteisio ar gyfleoedd chwarae?**

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau ?**
Cafwyd cyfyngiadau ar symudiadau wrth gwrs yn ystod y pandemig. Lle'n bosib, bu modd cynnal cyfleoedd chwarae/chwaraeon/diwylliannol a hamdden mewn ysgolion a chymunedau.

**Sylwadau**

Cyngor Cymuned Trelawnyd: Nid oes unrhyw bwynt cael cyfleusterau drud a chanddynt fynediad cyfyngedig – naill ai trwy rwystrau ffisegol / ariannol, neu oherwydd eu lleoliad. Byddai'r arian yn cael ei wario'n well trwy ei ddirprwyo i ddarparwyr lleol.

Cyngor Tref Treffynnon: Dylid rhoi mesurau ar waith i ddiogelu pob man agored presennol, a lle'n bosib, dylid ystyried creu rhagor o fannau agored.

Dienw - O ran mannau naturiol o fewn ardaloedd Cynghorau Tref a Chymuned, dylid gwneud mwy o ddefnydd ohonynt ar gyfer chwarae - coetiroedd - adeiladu deniau/llwybrau/chwilota.

Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd, digwyddiadau.

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio gwybodaeth yn gadarnhaol i sicrhau mynediad i ddarpariaeth chwarae ?**

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn Sir y Fflint wedi rhoi cyhoeddusrwydd i ddarpariaeth chwarae fel cynlluniau chwarae ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Hyrwyddwyd lleoedd gweigion mewn cynlluniau chwarae hefyd. Hyrwyddo cyfleoedd chwarae cyffredinol ar y cyfryngau cymdeithasol . Hyrwyddo gwybodaeth Chwarae Cymru.

O ran yr holl gyfleoedd chwarae/chwaraeon/diwylliannol/hamdden, cawsant eu hyrwyddo trwy dudalennau gwe'r Awdurdod Lleol, gyda gwybodaeth ategol, a oedd yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall yn iawn sut y byddai gwasanaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel.

Datblygwyd systemau cyn-gofrestru ac archebu ar gyfer pob gwasanaeth yn ystod y pandemig, i sicrhau bod pawb yn deall y gofynion o ran cydymffurfio â rheoliadau a chyfyngiadau Covid 19 o safbwynt cyfreithiol a'u bod yn cadw at y gofynion hyn.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau ?**

Roedd Covid 19 wedi cyflwyno sawl her o ran gallu pob gwasanaeth i barhau i gyflenwi gwasanaethau.

**Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae**

Dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth am strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | Bodlonwyd yn llawn. |

**Noder – Mae'r meini prawf hyn yn ymwneud yn benodol â Gwaith Chwarae: Mae Gwaith Chwarae'n broffesiwn â lefel uchel o sgiliau sy'n cyfoethogi ac yn gwella profiadau chwarae. Mae oedolion yn cefnogi gweithgareddau chwarae plant ond nid yw'r rhain yn cael eu harwain gan yr angen i gyflawni canlyniadau penodol o safbwynt addysgol neu ofal. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau sy'n darparu mynediad agored ynghyd â lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol.**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw gwybodaeth wedi'i diweddaru am y gweithlu yn yr Awdurdod Lleol (dylai hyn gynnwys nifer y gweithwyr chwarae, y strwythur rheoli chwarae, lefelau cymwysterau, | | | Mae AURA'n cyflogi Swyddog Dylunio Chwarae a phedwar Technegydd Chwarae. Ardystiwyd bod pob technegydd yn gymwys i gynnal 'Arolygon Gweithredol o Feysydd Chwarae Plant'.<br><br>Mae Swyddog Dylunio Chwarae AURA'n gyfrifol am ddylunio mannau chwarae sefydlog newydd ynghyd ag adnewyddu cyfleusterau chwarae presennol .<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r holl gofnodion ynghylch y gweithlu chwarae mewnol, h.y. holl | Nid oes unrhyw wybodaeth neu gofnod o unrhyw ddarpariaeth allanol, yn breifat neu o fewn y trydydd sector | Rhagor o waith partneriaeth o ran datblygu hyfforddiant ar y cyd o safbwynt unrhyw ddarpariaeth allanol neu o fewn y trydydd sector |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddolwyr) | | | aelodau'r Tîm Chwarae Cymunedol a Goruchwylwyr Cynlluniau Chwarae a gyflogir gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflenwi cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, ynghyd â phrosiectau chwarae eraill ledled y sir.<br><br>Gwneir hyn yn yr un modd ar gyfer gweithlu chwarae'r holl ddarpariaeth gofal dydd cofrestredig.<br><br>Mae AURA'n cadw cofnodion am bob aelod staff, gan gynnwys eu cymwysterau, gwiriadau DBS, ac mae rheolwyr/goruchwylwyr yn gyfrifol am eu lleoli a'u goruchwylio'n ddiogel/eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | Mae'r Awdurdod Lleol yn annog pob aelod o'r gweithlu i gyflawni lefel y cymhwyster a nodir yn Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru | | | Bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi aelodau o'r tîm Datblygu Chwarae i ganfod a mynychu cwrs Gwaith Chwarae Lefel 3, yn dilyn cwblhau cwrs Lefel 2 yn llwyddiannus.<br><br>**Cyfleoedd rheolaidd i hyfforddi mewn gwaith chwarae. Mae cyrsiau hyfforddiant yn hygyrch iawn.**<br><br>O fewn AURA, rhaid i hyfforddwyr cynorthwyol feddu ar gymhwyster lefel 1 yn erbyn y fframwaith 'Skills Active', a rhaid i hyfforddwyr arweiniol feddu ar gymhwyster lefel 2. | Nid yw natur tymor byr a thymhorol cyflogaeth ar gyfer prosiectau chwarae a gyflenwir gan yr awdurdod lleol yn helpu'r gweithlu cyfan i gyflawni'r lefel gymwysterau | Parhau i weithio gyda'r gwasanaethau mewnol ac asiantaethau sy'n bartneriaid a chyrff llywodraethu cenedlaethol i ganfod cyfleoedd i gydweithredu i ariannu hyfforddiant |
| 3. | Mae gan yr Awdurdod Lleol gyllideb datblygu staff a neilltuir ar gyfer chwarae, gan gynnwys gwaith chwarae | | | Mae'r awdurdod lleol yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfun, h.y. rhaglen hyfforddi lawn ar gyfer gweithwyr tymhorol, mewn partneriaeth â chyllid a dderbyniwyd trwy grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru, ynghyd â chynghorau tref a chymuned lleol.<br><br>Mae Datblygu Chwaraeon yn defnyddio ei gyllid grant a chyllid allanol arall i gefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | Nid oes unrhyw gyllideb graidd ddynodedig wedi'i neilltuo ar gyfer chwarae | Parhau i weithio gyda'r gwasanaethau mewnol ac asiantaethau sy'n bartneriaid a chyrff llywodraethu cenedlaethol i ganfod cyfleoedd i gydweithredu i ariannu hyfforddiant |
| 4. | Mae amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael i | | | Gall holl weithwyr y tîm Datblygu Chwarae gael mynediad i gyfleoedd hyfforddiant perthnasol eang ac amrywiol. Gall pob gweithiwr tymhorol newydd, neu sy'n dychwelyd, gael mynediad i'r hyfforddiant a ganlyn:<br>Cyflwyniad i Waith Chwarae | Nid yw'r tîm tymhorol a gyflogir i gyflenwi cynllun chwarae gwyliau'r haf yn gallu cyflawni | Parhau i weithio gyda'r gwasanaethau mewnol ac asiantaethau sy'n bartneriaid a chyrff llywodraethu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | weithwyr chwarae yn yr ardal | | | Diogelu ac Amddiffyn Plant<br>Iechyd a Diogelwch a Chwarae<br>Rheoli Risg/Buddion Risg<br>Hyfforddiant Cydraddoldeb a Chynhwysiant<br>Ymddygiad Heriol<br>Cynhwysiant o Safbwynt Anabledd<br>Polisïau a phrotocolau llywodraeth leol | cymhwyster gwaith chwarae achrededig oherwydd diffyg cyllid ac amser ar gyfer arsylwadau ar gyfer y cymhwyster | cenedlaethol i ganfod cyfleoedd i gydweithredu i ariannu hyfforddiant |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys gwaith chwarae yn ei strategaethau Datblygu'r Gweithlu | | | Gwybodaeth i ddilyn | | |
| 7. | Mae'r Awdurdod Lleol yn annog partneriaid i ddarparu hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr | | | Gwybodaeth i ddilyn | | |

**I'w nodi bod y meini prawf hyn am y gweithlu chwarae: Mae hyn yn cwmpasu unrhyw un sydd wedi'i gyflogi mewn swydd sydd ag effaith ar blant yn chwarae - y rhai sydd ag effaith uniongyrchol o ran hwyluso eu chwarae, cynllunio eu chwarae, neu'r rai sy'n galluogi'r plant i chwarae, neu beidio.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. | Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae fel y'i diffinnir yng ngeirfa'r pecyn cymorth | | | Mae AURA'n cyflogi Swyddog Dylunio Chwarae a phedwar Technegydd Chwarae. Ardystiwyd bod pob technegydd yn gymwys i gynnal 'Arolygon Gweithredol o Feysydd Chwarae Plant'.<br><br>Mae Swyddog Dylunio Chwarae AURA'n gyfrifol am ddylunio mannau chwarae sefydlog newydd ynghyd ag adnewyddu cyfleusterau chwarae presennol. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau i ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir i staff | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig pecyn hyfforddiant cynhwysfawr i bob aelod o'r tîm Datblygu Chwarae – yn bwrpasol ar gyfer cyflenwi yn Sir y Fflint ac sy'n cyd fynd â phob deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae'r hyfforddiant yn barhaus ar gyfer aelodau tîm craidd yn nhermau cyflawni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus.<br>Datblygir rhaglen hyfforddiant flynyddol i ddiwallu anghenion tîm haf y sir. Mae'r rhaglen yn cynnwys: Diogelu ac Amddiffyn Plant; Delio ag Ymddygiad Heriol mewn lleoliadau chwarae; Cymorth Cyntaf Pediatrig. Cyflenwyd hyfforddiant ychwanegol ar gyfer 2020/2021 i ddarparu gwasanaethau chwarae diogel, cyfrifol ac sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol yn ystod y pandemig.<br><br>Mae'r tîm Datblygu Chwarae'n gweithio gyda chyrff cenedlaethol, e.e. Chwarae Cymru, i gael mynediad i hyfforddiant achrededig hanfodol ar gyfer Gwaith Chwarae – yn rhad ac am ddim.<br><br>Mae Datblygu Chwaraeon yn gweithio'n agos ag amryw bartneriaid allweddol fel 'Street Games', Sefydliad Joseph Rowntree a 'Sported' i ddatblygu'r cyfleoedd diweddaraf sydd ar gael. | | |
| 10. | Mae amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad | | | Mae Datblygu Chwaraeon yn gweithio'n agos ag amryw bartneriaid allweddol fel 'Street Games', | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Proffesiynol Parhaus ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant. | | | Sefydliad Joseph Rowntree a 'Sported' i ddatblygu'r cyfleoedd diweddaraf sydd ar gael. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Mae sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth ar gael i weithwyr proffesiynol a swyddogion gwneud penderfyniadau y mae eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae | | | Mae pob Uwch Swyddog o fewn Addysg ac Ieuenctid yn ymwybodol o ofynion y Ddyletswydd a Digonolrwydd Chwarae. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau a phrosiectau cyfalaf a gyflenwyd ar draws y meysydd Addysg ac Ieuenctid wedi gwella eu dealltwriaeth.<br><br>Mae pob adran wedi chwarae rhan lawn yn yr ymgynghoriad ar gyfer Digonolrwydd Chwarae ers 2013 | Ar ôl y pandemig – etholiadau lleol – angen diwygio pethau | Datblygu Fforwm Chwarae Strategol Sir y Fflint |

**Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae**

**Sut mae'r Awdurdodau Lleol wedi cwrdd â'r gofynion i sicrhau neu ymgymryd â'r gwaith o gyflwyno'r swyddogaethau rheoli a chyflenwi sy'n angenrheidiol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae, a'u diogelu?**

**Fel y nodwyd yn dystiolaeth, cyfuno adnoddau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer pob maes gwasanaeth.**

**Sylwadau**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi parhau i hyfforddi'r timau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaeth yn ystod y pandemig. Roedd mwy o hyfforddiant ar gael trwy ganllawiau cenedlaethol yng nghyswllt rheoli cyfrifoldebau o ran iechyd cyhoeddus.

**Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi.**

Dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n eang â phlant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch eu barn ar ddarpariaeth chwarae. Dylai hefyd hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â'r gymuned gyfan wrth ddarparu cymunedau sy'n croesawu cyfleoedd chwarae

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn. | Bodlonwyd yn llawn. |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cynlluniau i ymgysylltu â grwpiau perthnasol wrth wella cyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal. | | | Cynllun Arian Cyfatebol CSyFf ar gyfer gwneud gwelliannau i fannau chwarae plant (gweler adroddiad y Cabinet, 20 Tachwedd 2018).<br>.<br>Datblygu Chwaraeon AURA – darpariaeth mewn ysgolion ac yn y gymuned, clybiau gwyliau, cyflenwi mewn partneriaeth.<br><br>Cynllun chwarae gwyliau'r haf y sir.<br>Gweithiwyd â 30 o gynghorau tref a chymuned yn 2018, mewn 58 o ardaloedd ar draws y sir.<br>Prosiect P.A.L.S. ('Play and Leisure Support'). | Cyllid, yr amser sydd ar gael a'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol ag aelodau / rhanddeiliaid, sy'n rhwystrau | Parhau i adfer yn dilyn y pandemig gan ganolbwyntio ar blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cicio i Blant (Cymru) / 'Kicks for Kids (Wales)'.<br><br>Grŵp Tasg Holway.<br><br>Partneriaeth Datblygu Chwarae Parkfields, Yr Wyddgrug.<br><br>Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ail-agorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed.<br><br>Cynhelir Ysgol Goedwig erbyn hyn, am 4 diwrnod yr wythnos, sy'n cynnwys 2 ddiwrnod ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, diwrnod ar gyfer y rheiny sy'n mynychu'r UCD, ynghyd â diwrnod ar gyfer plant dan 5, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff ei staffio ar y cyd gan weithwyr teulu Dechrau'n Deg a gweithwyr ieuenctid.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch yn gwbl weithredol unwaith eto, ac mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n cael pethau'n anodd o safbwynt eu llesiant. Darperir grwpiau cymdeithasol a chymorth i fynd i mewn i addysg, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth. | Roedd natur newidiol y pandemig wedi **rhoi stop** ar nifer o brosiectau | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, ac yn darparu strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol.<br><br>Cyngor Ieuenctid – Mae'r Cyngor Ieuenctid yn rhoi llais a chynrychiolaeth i bobl ifanc 11-25 oed yn Sir y Fflint, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cefnogi ac yn llywio gwaith cabinet Cyngor Sir y Fflint. Caiff y Cyngor Ieuenctid ei lywio gan CCUHP a'r Safon Cyfranogiad Cenedlaethol, ac maent wrth wraidd ei waith. Mae'n ceisio eu hyrwyddo ynghyd ag addysgu pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn eu cylch ym mhob agwedd ar eu gwaith a'u gweithgareddau.<br><br>Mae Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bawb, ac yn hwyluso grwpiau a dargedir ac unigolion na fyddent yn cael mynediad i ddarpariaeth mynediad agored, neu fod arnynt angen cefnogaeth arbenigol pellach. Mae hyn yn cynnwys | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwaith LGBTQ+ ynghyd â recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod y gallu i gyflenwi ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn ategu ein gwaith, ond hefyd yn hyrwyddo ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru a'i hiaith trwy'r ddarpariaeth gyfan.<br><br>Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth – Mae darpariaeth Ddatgysylltiedig ac Allgymorth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn cyfarfod gyda phobl ifanc yn y cymunedau lle maent yn cyfarfod a chymdeithasu. Mae'r tîm Datgysylltiedig yn cefnogi sesiynau chwaraeon allgymorth Hamdden a Llyfrgelloedd Aura, yn cyfarfod a siarad â phobl ifanc, yn darparu gwybodaeth iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned drwy:<br>- wneud lle addas ar gael i chwarae<br>- trefnu digwyddiadau chwarae | | | Gwahoddir AURA'n yn gyson i ddigwyddiadau sy'n rhoi cyfle i ymgysylltu â'r gymuned mewn perthynas â'r meysydd targed a nodwyd gan CSyFf.<br><br>Holway, Treffynnon; Parkfields, Yr Wyddgrug<br><br>Cynllun Chwarae Gwyliau Haf Sirol<br>Mewn partneriaeth â 30 o gynghorau tref a chymuned mewn 58 o ardaloedd ledled y sir. | **Ymgysylltu â'r gymuned mewn modd effeithiol** | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | - agweddau cadarnhaol tuag at blant a chwarae<br>- hyfforddiant ar bwysigrwydd chwarae. | | | Prosiect P.A.L.S. ('Play and Leisure Support')<br><br>Cicio i Blant (Cymru) / 'Kicks for Kids (Wales)'<br><br>Grŵp Tasg Holway<br><br>Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored: Ailagorwyd dros 80% yn ystod mis Medi 2021, pan ailagorodd yr ysgolion uwchradd, gyda'r gweddill yn agor yn fuan wedyn ar ôl cynnig sesiynau galw heibio gyda'r nos i bobl ifanc 11-25 oed.<br><br>Cynhelir Ysgol Goedwig erbyn hyn, am 4 diwrnod yr wythnos, sy'n cynnwys 2 ddiwrnod ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, diwrnod ar gyfer y rheiny sy'n mynychu'r UCD, ynghyd â diwrnod ar gyfer plant dan 5, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff ei staffio ar y cyd gan weithwyr teulu Dechrau'n Deg a gweithwyr ieuenctid.<br><br>Mae'r Prosiect Gwydnwch yn gwbl weithredol unwaith eto, ac mae'n cynnig pecyn cymorth cynhwysfawr i bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n cael pethau'n anodd o safbwynt eu llesiant. Darperir grwpiau cymdeithasol a chymorth i fynd i mewn i addysg, gwaith gwirfoddol neu gyflogaeth.<br><br>Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ac yn darparu strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol.<br><br>Cyngor Ieuenctid – Mae'r Cyngor Ieuenctid yn rhoi llais a chynrychiolaeth i bobl ifanc 11-25 oed yn Sir y Fflint, ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cefnogi ac yn llywio gwaith cabinet Cyngor Sir y Fflint. Caiff y Cyngor Ieuenctid ei lywio gan CCUHP a'r Safon Cyfranogiad Cenedlaethol, ac maent wrth wraidd ei waith. Mae'n ceisio eu hyrwyddo ynghyd ag addysgu pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn eu cylch ym mhob agwedd ar eu gwaith a'u gweithgareddau.<br><br>Mae Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i bawb, ac yn hwyluso grwpiau a dargedir ac unigolion na fyddent yn cael mynediad i ddarpariaeth mynediad agored, neu fod arnynt angen cefnogaeth arbenigol pellach. Mae hyn yn cynnwys gwaith LGBTQ+ ynghyd â recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau bod y gallu i gyflenwi ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nid yn unig yn ategu ein gwaith, ond hefyd yn hyrwyddo ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru a'i hiaith trwy'r ddarpariaeth gyfan.<br><br>Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig ac Allgymorth – Mae darpariaeth Ddatgysylltiedig ac Allgymorth Darpariaeth Ieuenctid Integredig yn cyfarfod gyda phobl ifanc yn y cymunedau lle maent yn cyfarfod a chymdeithasu. Mae'r tîm Datgysylltiedig yn cefnogi sesiynau chwaraeon allgymorth Hamdden a Llyfrgelloedd AURA, yn cyfarfod a siarad â phobl ifanc, yn darparu gwybodaeth iddynt ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn hanesyddol, cyflawnwyd llawer o waith yma. Rhoddwyd cyfle bob amser i deuluoedd a phreswylwyr gael eu cynnwys mewn gwaith cynllunio a phenderfyniadau. Mae mannau chwarae ardderchog ar gael, a chyflenwyd sawl digwyddiad o safon gan staff chwarae'r Awdurdod Lleol, yr oedd pob un ohonynt yn destun ymgynghori â'r gymuned. | | |

**Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi.**

**Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio'n effeithiol y mecanweithiau sydd yn eu lle i hyrwyddo prosesau i annog plant i gymryd rhan ac i ymgynghori â theuluoedd mewn perthynas â chwarae?**
Mae'r gwaith wedi parhau i gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau mewn cyflenwi gwasanaethau, e.e. roedd cyflwyno trefn cyn-gofrestru ar gyfer cynlluniau chwarae gwyliau'r haf wedi golygu bod rhieni a gofalwyr yn cael mwy o gyfle i ymgysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

**A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau?**
Do – yr her gychwynnol oedd cyflenwi gwasanaethau gyda'r holl newidiadau angenrheidiol a fynnwyd i'w cyflenwi'n ddiogel yn ystod y pandemig.

**Sut mae eu goresgyn?**

Trwy weithio i gyflawni gofynion cyfreithiol cyflenwi gwasanaethau, yn unol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol.

**Sylwadau:**

**Cyngor Cymuned Trelawnyd:** Gellir cyflawni hyn trwy ddarparu safleoedd diogel i gymunedau, sy'n cael eu diogelu rhag datblygu ynghyd â pheryglon lleol.

Nid oes angen safleoedd sydd wedi'u gorgynllunio neu sydd â gormod o offer. Mae mynediad rhwydd a goruchwyliaeth naturiol yn bwysig, ac mae angen cefnogi'r ddarpariaeth gan gyllid sylfaenol dirprwyedig. Gellir codi arian ychwanegol yn lleol. Gall y Cyngor Sir chwarae rôl oruchwyliol o ran sicrhau y caiff safonau diogelwch sylfaenol eu dilyn, ac y defnyddir cyllid yn briodol - yn seiliedig ar ymgynghori lleol.

Cyngor Tref Treffynnon: Mae angen cynnal ymgynghoriadau priodol â phob rhanddeilydd, er mwyn llywio canlyniadau prosiectau. Croesawir hyn gan bob rhanddeilydd.

Dienw – Cyngor Tref a Chymuned
Yn sicr, mae costau/cyllidebau yn hanfodol o ran yr hyn y gellir ei roi ar waith.
Yn ein pentref ni, mae busnesau preifat yn darparu cyfleoedd chwarae.
Ceir teimlad bob amser bod y gwasanaeth, y cynllun chwarae, yn amhrisiadwy, ond yn gyfyngedig o ran yr amser sydd ar gael.

**Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu**

Dylai'r Awdurdod Lleol archwilio pob un o'i agendâu polisi o ran eu heffaith bosibl ar gyfleoedd plant i chwarae a chynnwys targedau a chamau gweithredu i wella cyfleoedd chwarae i blant ym mhob polisi a strategaeth o'r fath.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Bodlonwyd y meini prawf yn llawn | Bodlonwyd yn llawn |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae yna unigolyn wedi'i enwi ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n hyrwyddo cyfleoedd chwarae i blant ac yn sicrhau bod yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu yn cyfrannu at y Cynllun Llesiant ac yn cael eu hymgorffori ynddo | | | Cynrychiolir chwarae trwy Brif Swyddog y Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid, ac Aelod Portffolio'r Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid. Rhagwelir y bydd naill ai un ohonynt, neu'r ddau, yn cadeirio'r Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Chwarae (Strategol). | | |
| 2. | Mae'r Cynllun Llesiant yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at | | | Mae cysylltiadau'n cael eu datblygu rhwng Digonolrwydd Chwarae a Chadernid Cymunedol. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ddarparu cyfleoedd chwarae da | | | Ceir cysylltiadau uniongyrchol â chyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint, o safbwynt lleihau effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE's) | | |

**Addysg ac ysgolion**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae ysgolion yn sicrhau bod amgylchedd chwarae da yn cael ei ddarparu i blant ar gyfer egwyliau yn ystod y diwrnod ysgol. | | | **Ysgol Owen Jones:** Hoffem ddatblygu ardal goedwig yr ysgol ar gyfer gweithgareddau amser cinio ac amser chwarae - i greu mannau diogel i ddisgyblion a darparu gweithgareddau eraill i blant eu cwblhau. O ganlyniad i gael grant trwy MBNA, bu modd i ni ddatblygu Maes Chwarae Antur a datblygu ein hardal awyr gored i blant Meithrin a Derbyn - mae'r ardaloedd hyn wedi helpu'r ddarpariaeth awyr agored. Gwnaeth yr ysgol fuddsoddiad | **Ysgol Owen Jones:** Dim digon o le i greu amgylchedd cyfoethog i blant chwarae. O ganlyniad i swigod Covid, bu rhaid gwasgaru amseroedd chwarae ac amseroedd cinio, sydd wedi darparu | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mewn sied Rhannau Rhydd ar gyfer chwarae creadigol, fel rhan o'r cwricwlwm a gweithgareddau amser cinio - mae'n anodd cael staff i'w goruchwylio yn ystod amser cinio.<br><br>**Ysgol Bryn Gwalia:** Byddwn yn gofyn i'r Cyngor Ysgol yn rheolaidd geisio canfod pa offer chwarae y mae'r plant ei eisiau/ei angen ar gyfer y man awyr agored. Codir arian trwy PDG neu grantiau eraill ar gyfer chwarae, i brynu'r eitemau a fynnir. Trwy wneud hyn, caiff y plant eu cynnwys wrth wraidd y penderfyniadau a wneir. Maent hefyd yn ymwybodol o hawliau'r plentyn i chwarae, ac mae hyn yn helpu i'w cynnwys mewn penderfyniadau.<br><br>**Ysgol Gynradd Southdown:** Gardd Synhwyraidd o flaen yr ysgol, sy'n cynnwys twnnel polythen, cynwysyddion plannu, teiars, tŵls ac ati, ar gyfer chwarae a dysgu gweithredol. | mwy o le, ond ni ellid parhau â'r drefn hon dros y tymor hir. Cyllid i ddatblygu darpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen – mae angen cwblhau gwaith draenio ar gyfer ardal awyr agored Dosbarth 2, er mwyn gallu ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer cynnig gwell darpariaeth – o ran dysgu a chwarae.<br><br>**Ysgol Merllyn:** O ganlyniad i gyfyngiadau'r gyllideb, mae buddsoddi mewn amgylchedd da ar | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Mannau chwarae/dysgu awyr agored ar gyfer bob dosbarth Cyfnod Sylfaen, Mae ardal chwarae awyr agored yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd i'w rhannu gan CA2.<br>• Dyfodol Chwareus – sied chwarae i ddysgwyr gael defnyddio rhannau rhydd.<br>• Cafodd y maes chwarae ei farcio o'r newydd yn ddiweddar i hybu chwarae (Grant Digonolrwydd Chwarae).<br>• Cylchoedd pêl-fasged, pyst pêl-rwyd a goliau pêl-droed i ddysgwyr gael eu defnyddio amser chwarae ac amser egwyl.<br>• Llwybr Ffitrwydd / 'Trim Trail' a Pharc Teiars i ddysgwyr eu defnyddio.<br><br>Caiff pob plentyn gyfleoedd i chwarae a mynegi eu hunain yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Ceir cyfleoedd ar gyfer chwarae mwy strwythuredig a | gyfer amser chwarae yn ystod y dydd yn her. Rydym yn wynebu'r un her o ran cyfleoedd chwarae y tu allan i oriau ysgol, gan mai ychydig iawn o offer neu gyfleusterau sydd gennym i ddarparu cyfleoedd o'r fath yn yr awyr agored.<br><br>**Ysgol Gymraeg Mornant:** Mae cael mynediad i dir yr ysgol yn ystod y dydd yn rhwydd o un dosbarth, ond nid o'r ddau arall. Byddem yn croesawu gwaith addasu, ond nid ydym yn gallu fforddio gwneud hyn. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyflenwir gan MDSA ac arweinyddion Chwaraeon/Chwarae.<br><br>**Ysgol Gynradd Ewloe Green:** Dau fan chwarae â tharmac wedi'u marcio (ond mae angen eu hadnewyddu'n aml oherwydd ansawdd y tarmac).<br>Mae'r offer chwarae awyr agored yn cynnwys llwybr ffitrwydd / 'trim trail' a ffrâm ddringo i'r plant meithrin.<br><br>**Ysgol Westwood C.P.:** Byddem yn sicrhau y darperir amgylchedd chwarae cyfoethog i'r plant ar gyfer amseroedd egwyl yn ystod y diwrnod ysgol, gydag ystod o adnoddau a chyfleoedd i'w hysgogi. Defnyddir yr amgylchedd awyr agored i'r eithaf.<br><br>**Ysgol Bryn Pennant:** Dros y ddwy / tair blynedd diwethaf, rhoddwyd blaenoriaeth gennym i ddatblygu ardal y maes chwarae Iau a gafodd ei ymestyn yn dilyn dymchwel adeilad y Clwb Ieuenctid a leolwyd ar ein safle'n flaenorol. Rydym ar fin | **Ysgol St John the Baptist VA School, Penymynydd**: Bu'n anodd cyflawni hyn oherwydd cyfyngiadau Covid gan fod maes chwarae'r ysgol wedi'i wahanu ac mae'r mynediad i offer mawr/sefydlog wedi'i amserlennu/lleihau. Gan yr ymddengys bellach y bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi, byddwn yn cael ystyried gwella ein darpariaeth chwarae unwaith eto yn ystod amser egwyl. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cael gosod dwy gysgodfan newydd yn y maes chwarae ym mis Mai, a fydd yn cyfoethogi'r amgylchedd chwarae ymhellach.<br><br>**Ysgol y Santes Fair, Y Fflint:** Gwariwyd llawer iawn o arian gennym yn ddiweddar ar adnewyddu ein llwybr ffitrwydd / 'trim trail' presennol yn gyfan gwbl (roedd yr un blaenorol mewn cyflwr difrifol). Rydym wedi prynu rhwydi pêl-fasged a bagiau offer chwarae ar gyfer pob grŵp oedran, gan ddefnyddio ein cyllideb ein hunain.<br><br>**Ysgol Tŷ Ffynnon:** Yn ystod amser cinio, caiff plant ar iardiau'r Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau fynediad i sied ac adnoddau Dyfodol Chwareus. Byddant hefyd yn cael mynediad i offer ymarfer corff, fel rhaffau sgipio, peli, batiau, sgwpiau ac ati, yn ystod amser chwarae ac amser cinio. Mae llwybrau ffitrwydd / 'trim trails' ar gael yn y ddwy ardal, sydd wedi'u gwahaniaethu yn ôl oedran y plant. Ar iard y Cyfnod | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Sylfaen, ceir amrywiaeth o adnoddau bob amser, fel tai chwarae, cegin fwd, adnoddau chwarae dŵr, lle i blannu, llong fôr-ladron ac ardal chwarae tywod fawr. Mae gan yr ysgol ardal goedwig hefyd, ynghyd â gardd gymunedol a safle mawr ar gyfer cynnal amryw weithgareddau awyr agored a chwaraeon.<br><br>**Ysgol Maesglas:** Sylwadau/Data: Mae'r iard yn cael ei marcio ar hyn o bryd i annog plant i feddwl mewn modd creadigol a llawn dychymyg, ac i ddatblygu eu lefelau o ffitrwydd a stamina. Mae cwrt 5 bob ochr wedi'i farcio ar yr iard hefyd, i ddatblygu'r amgylchedd chwarae ymhellach.<br>Fel ysgol, rydym hefyd wedi gwario llawer o arian ar osod gôl sefydlog, cylch pêl-fasged a saethwr pêl-fasged. Rydym wedi ymestyn ein llwybr ffitrwydd / 'trim trail' a fydd yn galluogi ein dysgwyr iau i gymryd rhan. Ynghyd â'r marciau a ariannwyd gan y grant, mae gan y | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | disgyblion amgylchedd chwarae cyfoethocach ar gyfer amser egwyl ac amser cinio.<br><br>**Ysgol Treffynnon:** Mynediad i'r 'Astro turf' ar gyfer yr ysgol uchaf, gweithgareddau chwaraeon 5x60 yn ystod amser cinio, clwb chwaraeon bwrdd 1 diwrnod yr wythnos.<br><br>**Ysgol Gymraeg Mornant:** Mae gennym offer chwarae a chae mawr, dwy iard ac ardal goetir.<br><br>**Ysgol Uwchradd Penarlâg:** Yn Ysgol Uwchradd Penarlâg mae'r safle cyfan ar agor yn ystod amser egwyl ac amser cinio, ar wahân i i fyny'r grisiau. Gall myfyrwyr ddewis unrhyw ran o'r safle, y tu mewn neu'r tu allan, i gymdeithasu a chwarae, ac nid oes unrhyw rannau sydd wedi'u cyfyngu i grŵp penodol o fyfyrwyr, ar wahân i ganolfan y 6ed dosbarth. Yn ychwanegol i'r ffreutur, ceir mannau awyr agored gyda seddau a meinciau, ynghyd | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ag ardal y 'cwad' sydd wedi'i thirlunio o'r newydd, a chanddi seddi i'r myfyrwyr gael eistedd, bwyta a chwarae. Mae cae bob tywydd yr ysgol, ynghyd â'r cyrtiau pêl-fasged/tennis, ar agor i bob grŵp blwyddyn yn ystod amser cinio, a cheir amrywiaeth o weithgareddau yn ein mannau chwaraeon o dan do, a drefnir gan AURA. Yn ogystal, mae'r llyfrgell ar gael yn ystod amser egwyl ac amser cinio, ac mae'n ystafell sydd wedi'i neilltuo ar gyfer TGaCh sydd ar gael i'r myfyrwyr ei defnyddio.<br><br>Mae gan ysgolion gwledig yn Sir y Fflint fannau i'w defnyddio eisoes, ac maent yn eu datblygu ymhellach. Mae sawl un o'r mannau chwarae awyr agored yn cael eu datblygu, ochr yn ochr â darpariaeth o fath Ysgol Goedwig, sy'n gallu cyfuno dysgu gyda chwarae. | | |
| 2. | Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae y tu allan i | | | **Ysgol Owen Jones:** Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, o ran | **Ysgol Merllyn:** Oherwydd yr uchod, nid ydym ar | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | oriau addysgu | | | chwaraeon a rhai nad ydynt yn chwaraeon, ar ôl ysgol. Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn defnyddio safle'r ysgol pan mae'r tywydd yn cynhesu. Bydd y Cynllun Chwarae'n defnyddio safle'r ysgol yn ystod gwyliau'r haf hefyd.<br><br>**Ysgol Gynradd Southdown:** Rhaglen allgyrsiol helaeth ar ôl ysgol. Mae'r clwb ar ôl ysgol yn cael mynediad i ddarpariaeth yr ysgol hefyd, i wella cyfleoedd chwarae.<br><br>**Ysgol Bryn Gwalia:** Mae'r athrawon yn rhedeg clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod amser cinio, sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer chwarae strwythuredig.<br><br>**Ysgol Gynradd Ewloe Green:** Mae gennym Glwb Hwyl ar ôl Ysgol.<br><br>**Ysgol Westwood C.P.:** Byddwn yn darparu cyfleoedd chwarae y tu allan i oriau addysgu. Darperir amrywiaeth o weithgareddau lles ac | hyn o bryd yn darparu mynediad i safle'r ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau'r ysgol. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | iechyd allgyrsiol gyda staff yr ysgol a darparwyr allanol.<br><br>**Ysgol Treffynnon:** Clwb drama, clwb gwau, clybiau chwaraeon. Mae bwriad i farcio bwrdd gwyddbwyll ar yr iard y tu ôl i'r ysgol, gyda darnau gwyddbwyll mawr (mewn ymateb i gais i wneud hynny).<br><br>**Ysgol St John the Baptist VA School, Penymynydd**: Rydym yn cynnal clwb cyn ac ar ôl ysgol, ynghyd â chlwb gwyliau (o'r enw 'Little Disciples'). Amser tymor, o 7.50yb i 8.40yb, 3.15yp - 6yh, ynghyd â chlwb gwyliau o 8yb i 6yh.<br><br>Darperir offer chwarae yn ystod amser egwyl. Anogir disgyblion i chwarae yn yr awyr agored yn ystod amseroedd egwyl. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Mae ysgolion yn darparu mynediad i dir yr ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau ysgol | | | **Ysgol Owen Jones:** Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, o ran chwaraeon a rhai nad ydynt yn chwaraeon, ar ôl ysgol. Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn defnyddio safle'r ysgol pan mae'r tywydd yn cynhesu.<br><br>**Ysgol Bryn Gwalia:** Fel ysgol, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i agor yr ysgol cymaint ag y bo modd. Byddem yn rhedeg clwb SHEP yn ystod yr haf, ynghyd ag 'Active Education' ar ôl ysgol, 3 noson yr wythnos. Rydym hefyd yn cael grwpiau Brownies a Guides yn defnyddio'r ysgol unwaith yr wythnos. Mae clybiau fel SHEP ac 'Active Education' wedi caniatáu i ni brynu offer chwarae, y caiff yr ysgol ei ddefnyddio hefyd. Mae agor yr ysgol yn cadw'r plant yn egnïol ac yn brysur, gan fod llawer o broblemau a welwn fel ysgol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y gwyliau a gyda'r nos. | **Ysgol y Santes Fair, Y Fflint:** Nid yw'r ysgol ar gael y tu allan i oriau ysgol, ar wahân i ar gyfer plant sydd mewn clwb ar ôl ysgol.<br>**Ysgol Gymraeg Mornant:** Ni chaiff y plant ddefnyddio'r safle y tu allan i'r ysgol ar ôl oriau'r ysgol.<br><br>Dim tystiolaeth o hyn, ymddengys ei fod yn annog rhai i beidio â'i defnyddio. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ysgol Westwood C.P.:** Byddem yn darparu mynediad i safle'r ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau'r ysgol o fewn gweithgareddau allgyrsiol gyda staff yr ysgol a darparwyr allanol. Cynhelir digwyddiadau ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau.<br><br>**Ysgol Bryn Pennant:** Defnyddir safle ein hysgol gan AURA yn wythnosol, i ddarparu gweithgareddau 'aml-chwaraeon' i blant ar ôl ysgol.<br><br>**Ysgol y Santes Fair, Y Fflint:** Mae gennym Glwb ar ôl Ysgol a chlybiau allgyrsiol eraill a gynhelir amser cinio ac ar ôl ysgol, sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i chwarae.<br><br>**Ysgol Tŷ Ffynnon:** Clwb ar ôl ysgol a grŵp chwarae. Gall y plant gael mynediad i'r holl adnoddau uchod. Cafodd y plant a oedd yn mynychu fynediad i'r holl adnoddau hyn yn ystod yr haf yn y gorffennol. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ysgol Treffynnon:** Ni cheir unrhyw fynediad i safle'r ysgol, y tu allan i oriau'r ysgol, heb oruchwyliaeth. Mae'r ysgol yn darparu cyfleusterau hamdden i'r gymuned o dan oruchwyliaeth annibynnol.<br><br>**Ysgol Uwchradd Penarlâg:** Mae'r ysgol yn rhedeg bob math o gyfleoedd chwarae y tu allan i oriau'r ysgol, y mae rhai ohonynt yn chwaraeon ac eraill yn weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon. Maent yn amrywio o bêl-droed, pêl-rwyd, pêl-fasged ac athletau, i'r clwb gwyddbwyll a'r clwb 'dungeons and dragons'. Mae'r ysgol yn cynnig y defnydd o gae bob tywydd, cyfleusterau chwaraeon dan do, cyrtiau pêl-rwyd a thennis, ynghyd â llyfrgell ar gyfer cyfleoedd chwarae y tu allan i oriau'r ysgol.<br><br>**Ysgol St John the Baptist VA School, Penymynydd**: Ydy, ar gyfer clwb y tu allan i oriau y 'Little Disciples'. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | Mae ysgolion yn annog plant i gerdded a seiclo i'r ysgol | | | Datblygu Chwaraeon AURA – darpariaeth mewn ysgolion a'r gymuned, clybiau gwyliau, cyflenwi mewn partneriaeth.<br><br>**Ysgol Bryn Gwalia:** Rydym yn rhan o fenter 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' Sir y Fflint. Rydym hefyd yn cofnodi dulliau teithio yn ddyddiol ac yn cofnodi ar wefan WOW. Caiff plant eu gwobrwyo am gerdded, seiclo/defnyddio sgwter. Mae hyn wedi cael effaith ryfeddol o ran ei fod yn ysgogi'r plant i edrych ar ddulliau iachach o deithio i'r ysgol.<br><br>**Ysgol Gynradd Southdown:** Mae rheseli beics ar gael i annog dysgwyr i seiclo i'r ysgol. Gall y plant ym mlwyddyn 6 gymryd rhan yn y cynllun hyfedredd beicio yn ystod tymor yr haf. Bu'r ysgol yn cymryd rhan yn y fenter cerdded/seiclo i'r ysgol hefyd.<br><br>**Ysgol Gynradd Ewloe Green:** Anogir y disgyblion i gerdded i'r | Plant nad ydynt yn berchen beic – mae'r rhaglen yn dod â beics i mewn i'r ysgolion.<br><br>Llwybrau diogel er mwyn parhau i seiclo i'r ysgol.<br><br>Dim tystiolaeth o hon o ran seiclo – dim mapio i ganfod llwybrau diogel, dim mannau diogel i storio beics, sesiynau diogelwch beics ac ati. Yn y gorffennol, rhoddwyd gwobrau i blant a rhieni i'w hannog i gerddded i'r ysgol, ond ni chafwyd tystiolaeth fod hyn ar gael ar gyfer beics. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ysgol (ond danfonir nifer ohonynt mewn car).<br>Caiff disgyblion ym mlwyddyn 5 gymryd rhan mewn cyrsiau Hyfedredd Beicio a gallant seiclo i'r ysgol yn ystod tymor yr haf.<br><br>**Ysgol Westwood C.P.:** Rydym yn annog plant i gerdded i'r ysgol. Mae rheseli beics ar gael i'r plant eu defnyddio.<br><br>**Ysgol Bryn Pennant:** Mae'r mwyafrif o blant yn byw'n lleol ac yn cerdded i'r ysgol. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei annog.<br><br>**Ysgol y Santes Fair, Y Fflint:** Rydym yn cymryd rhan yn y prosiect Llwybrau Mwy Diogel yn y gymuned yn y Fflint, sy'n ymwneud â gwella'r amodau i ddisgyblion gerdded a seiclo i'r ysgol, gan annog plant a rhieni i wneud hynny.<br><br>**Ysgol Tŷ Ffynnon:** Mae'r ysgol yn darparu sied feics i blant gael gadael eu beics/sgwteri yno ar ôl | **Ysgol Treffynnon:** Mae seiclo'n broblem oherwydd nad oes cyfleusterau diogel i storio beics.<br><br>**Ysgol Gymraeg Mornant:** Nid ydym yn annog plant i gerdded i'r ysgol gan fod y ffyrdd yng nghyffiniau'r ysgol yn beryglus. Anogir y plant i ddefnyddio'r bws ysgol, ond mae parcio ceir a gollwng a chodi plant wrth yr ysgol yn broblem. Unwaith eto, rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau am hyn. Nid oes gennym y cyllid i ddatrys y broblem. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyrraedd yr ysgol. Nid oes gan yr ysgol unrhyw gyfleusterau parcio y tu allan i'r ysgol, felly mae'r rhieni'n parcio i ffwrdd o'r ysgol ac yn cerdded eu plant at y giatiau.<br><br>**Ysgol Merllyn:** Mae nifer sylweddol o blant yn cerdded, seiclo neu'n defnyddio sgwteri i deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.<br><br>**Ysgol Treffynnon:** Mae nifer o fyfyrwyr yn cerdded.<br><br>**Ysgol Uwchradd Penarlâg:** Anogir myfyrwyr i gerdded a seiclo i'r ysgol, ac mae gennym gyfleuster o dan do ar gyfer beics, sy'n cael ei gloi trwy gydol y diwrnod ysgol. Bythefnos yn ôl, cymerwyd rhan gennym yn y 'Sustrans Big Walk and Wheel' a redwyd fel cystadleuaeth ar gyfer yr ysgol gyfan.<br><br>**Ysgol St John the Baptist VA School, Penymynydd**: Ydy, ar | **Ysgol St John the Baptist VA School, Penymynydd**: Bu'r sylw ar Covid dros y 2 flynedd ddiwethaf, felly nid ydym wedi cynnal wythnos cerdded i'r ysgol neu wedi gwthio plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol ers Mawrth 2020. Byddwn yn cynnal ein cwrs Hyfedredd Beicio ar gyfer blwyddyn 6 y tymor hwn, felly ceir cyfle i hybu/ codi'r mater bryd hynny. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfer clwb ar ôl oriau ysgol y 'Little Disciples'.<br>**Anogir cerdded os lleolir yr ysgol yn agos i gartrefi'r plant.** | | |
| 5. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig arweiniad er mwyn sicrhau bod ysgolion yn deall na ddylid cwtogi ar gyfleoedd chwarae rheolaidd yn yr awyr agored ac nad yw hynny'n digwydd | | | **Ysgol Uwchradd Penarlâg:** Athroniaeth ein hysgol o safbwynt chwarae yn yr awyr agored a gweithgareddau allgyrsiol yn gyffredinol yw eu bod wrth wraidd profiad myfyrwyr yn yr ysgol. Yn ôl ymchwil, ynghyd â'n profiad ni, mae myfyrwyr sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn yn hapusach, yn iachach, yn fwy hyderus, ac yn fwy tebygol o lwyddo'n academaidd. Fe gawn ein cymell gan y gred hon.<br><br>**Ysgol Gynradd Southdown:** Mae cyfleoedd i chwarae a phwysigrwydd chwarae yn cael eu nodi'n glir ym mholisi dysgu awyr agored yr ysgol.<br><br>**Ysgol Bryn Gwalia:** Mae'r ALI yn cynnig grantiau a datrysiadau i ysgolion i sicrhau nad yw cyfleoedd | **Ysgol Merllyn:** Rydym yn deall bod yr ALI yn cynnig arweiniad ond mae angen buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth awyr agored i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae.<br><br>**Ysgol Treffynnon:** Mae'r gallu i ddarparu digonedd o ddarpariaeth chwarae yn cael ei gyfyngu'n sylweddol gan ddiffyg capasiti o ran goruchwyliaeth amser cinio. | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae yn cael eu cwtogi. Mae hyn wedi helpu i lywio ysgolion, ac amlygwyd pwysigrwydd chwarae yn ddiweddar.<br><br>Mae Gweithwyr Ieuenctid Trochi Cymunedol ac Ysgolion yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol i grwpiau ac unigolion, ac yn eu cysylltu â gwasanaethau mwy arbenigol, sydd wedi'u targedu, fel y bo'n briodol. Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles a gwydnwch, ac yn darparu strategaethau i alluogi pobl ifanc i fod yn aelodau hapus ac iach o'u hysgol a'u cymuned ehangach, ynghyd â'u hannog i gael gobeithion a dyheadau at eu dyfodol. | | |

| Cynllunio Gwlad a Thref |
|---|

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.. | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion plant o wahanol grwpiau oedran a galluoedd o ran chwarae yn yr awyr agored | | | **Ceir mannau chwarae awyr agored ardderchog yn y mwyafrif o bentrefi/trefi** | Oes rhywun wedi ymgynghori â phlant/rhieni ynglŷn â hyn? | |

**Traffig a Thrafnidiaeth**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth lleol yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd, ffyrdd a llwybrau cerdded a seiclo lleol o ran cynnig cyfleoedd i blant o wahanol oedrannau a galluoedd | | | | Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch a llwybrau seiclo diogel yn golygu nad yw plant yn gallu cael mynediad i gyfleusterau y tu hwnt i'w lleoliad cyfagos. | |
| 2. | Mae'r Cynllun Trafnidiaeth lleol yn nodi ffyrdd o asesu anghenion pob grŵp, gan | | | | Nid oes unrhyw dystiolaeth o ymgynghori â'r | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynnwys y rheini sy'n aml yn cael eu hymyleiddio, a mynd i'r afael â hynny. | | | | cyhoedd ynglŷn â hyn. | |

**Cynlluniau Blynyddoedd Cynnar**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Mae cynlluniau a gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu cyfleoedd chwarae da i blant iau | | | **Ceir cyfeiriadau at chwarae a mannau chwarae. Darperir offer da ac ati mewn Canolfannau Teuluoedd.** | | |

**Polisïau a mentrau i'r teulu**

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | Mae mentrau cymorth i deuluoedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chymorth i rieni i'w galluogi i annog eu plant i chwarae | | | Mae Hwb Cymorth Cynnar Sir y Fflint yn ddull amlasiantaethol o ddarparu help a chymorth cynnar, wedi'i dargedu, i deuluoedd. Gan weithio ar draws asiantaethau, cydleolir staff i ddarparu dull cydgysylltiedig o ddarparu cymorth cynnar, gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r teulu unigol.<br><br>Mae'r Hwb yn darparu un pwynt cyswllt i weithwyr proffesiynol, teuluoedd a phobl ifanc gael mynediad i gymorth cynnar ledled Sir y Fflint, gyda'r nod o gefnogi teuluoedd gyda'r math iawn o help, ar yr adeg iawn, gan y gwasanaeth iawn.<br><br>Gan fod asiantaethau statudol a gwirfoddol wedi'u lleoli gyda'i gilydd, mae'n cynyddu cyfleoedd i rannu gwybodaeth, ac yn sicrhau ymateb cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion teuluoedd.<br><br>O ganol mis Gorffennaf 2017, pan ddechreuodd prosesau rhannu | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwybodaeth a phenderfynu cyntaf yr Hwb Cymorth Cynnar, mae pob teulu a chanddynt ddau neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu fel arall trwy'r Gwasanaethau Plant statudol, wedi cael cynnig gwybodaeth, arweiniad a chymorth pwrpasol.<br><br>Ceir cytundeb ar draws trefniadau amlasiantaethol o safbwynt cwmpas a phrosesau'r Hwb CC, gan gynnwys y modd yr oedd yr Hwb CC yn rhyngweithio â'r Gwasanaethau Plant statudol i gyfyngu ar y risg na fydd teuluoedd yn cael mynediad i'r cymorth iawn yn gyflym. Mae'n ennyn hyder mai canolbwynt yr Hwb CC yw sicrhau bod cymorth pwrpasol ar gael i deuluoedd a chanddynt ddau neu ragor o ACEs, y byddent fel arall mewn perygl o beidio â chael cymorth.<br><br>Y Nod Allweddol – darparu'r lefel uchaf o wybodaeth, ynghyd â dadansoddi'r holl wybodaeth sydd ar gael ledled y bartneriaeth amlasiantaethol, i sicrhau: | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Bod pob plentyn, unigolyn ifanc a theuluoedd yn cael mynediad i gyngor a gwybodaeth am gymorth cynnar a pherthnasol er mwyn meithrin sgiliau i'w galluogi i ymdopi, ynghyd â hybu lles, a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyn iddynt ymwreiddio.<br>• O ran teuluoedd sydd mewn mwy o berygl o ganlyniad i'w problemau'n gwaethygu, bod ymyriadau amlasiantaethol, priodol, ar gael iddynt fel mater o frys.<br><br>Amcanion Allweddol<br><br>• 'Taith' well i'r plentyn a'r teulu, gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gwybodaeth, cyngor, a chymorth ar yr adeg iawn, yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Y gallu i ganfod pan fo teuluoedd efallai'n fwy agored i niwed, a fydd yn arwain at gymryd rhagor o gamau ataliol, ynghyd â'r gallu i ddelio â phroblemau cyn iddynt ymwreiddio, a meithrin lles a chadernid teuluoedd.<br>• Gweithio'n agosach mewn partneriaeth, llinellau atebolrwydd cliriach, a llai o ddyblygu o ran gwaith.<br>• Gwella ansawdd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth plant yn ôl yr hyn a fesurir o ran llai o atgyfeiriadau amddiffyn plant, ynghyd â llai o 'NFAs' gan y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru.<br>• Lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella cyflawniad addysgol a llythrennedd ariannol, ynghyd â thenantiaethau mwy sicr.<br>• Lle bo gwell trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn yr Hwb CC yn canfod pryderon posibl o ran diogelu, dylid | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cymryd camau yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol.<br><br>Darparu / annog pobl i fynd ati i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â rhestrau adnoddau Dewis. | | |
| 5. | Mae gweithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn lleol yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog | | | | Nid yw bob amser yn glir o le mae cyllid yn deillio ar gyfer mentrau penodol. | |
| 6. | Mae cynlluniau i leihau effaith Profiadau Plentyndod Niweidiol yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae da | | | Mae'r Hwb Cymorth Cynnar yn canfod ac yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae fel modd o gynorthwyo plant mewn achosion sy'n cael eu hatgyfeirio, lle y bo'n briodol.<br>Mae Hwb Cymorth Cynnar Sir y Fflint yn ddull amlasiantaethol o ddarparu help a chymorth cynnar, wedi'i dargedu, i deuluoedd. Gan weithio ar | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | draws asiantaethau, cydleolir staff i ddarparu dull cydgysylltiedig o ddarparu cymorth cynnar, gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r teulu unigol.<br><br>Mae'r Hwb yn darparu un pwynt cyswllt i weithwyr proffesiynol, teuluoedd a phobl ifanc gael mynediad i gymorth cynnar ledled Sir y Fflint, gyda'r nod o gefnogi teuluoedd gyda'r math iawn o help, ar yr adeg iawn, gan y gwasanaeth iawn.<br><br>Gan fod asiantaethau statudol a gwirfoddol wedi'u lleoli gyda'i gilydd, mae'n cynyddu cyfleoedd i rannu gwybodaeth, ac yn sicrhau ymateb cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion teuluoedd.<br><br>O ganol mis Gorffennaf 2017, pan ddechreuodd prosesau rhannu gwybodaeth a phenderfynu cyntaf yr Hwb Cymorth Cynnar, mae pob teulu a chanddynt ddau neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu fel arall | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | trwy'r Gwasanaethau Plant statudol, wedi cael cynnig gwybodaeth, arweiniad a chymorth pwrpasol.<br><br>Ceir cytundeb ar draws trefniadau amlasiantaethol o safbwynt cwmpas a phrosesau'r Hwb CC, gan gynnwys y modd yr oedd yr Hwb CC yn rhyngweithio â'r Gwasanaethau Plant statudol i gyfyngu ar y risg na fydd teuluoedd yn cael mynediad i'r cymorth iawn yn gyflym. Mae'n ennyn hyder mai canolbwynt yr Hwb CC yw sicrhau bod cymorth pwrpasol ar gael i deuluoedd a chanddynt ddau neu ragor o ACEs, y byddent fel arall mewn perygl o beidio â chael cymorth.<br><br>Y Nod Allweddol – darparu'r lefel uchaf o wybodaeth, ynghyd â dadansoddi'r holl wybodaeth sydd ar gael ledled y bartneriaeth amlasiantaethol, i sicrhau:<br><br>Bod pob plentyn, unigolyn ifanc a theuluoedd yn cael mynediad i gyngor a gwybodaeth am gymorth cynnar a pherthnasol er mwyn meithrin sgiliau i'w galluogi i ymdopi, | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ynghyd â hybu lles, a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyn iddynt ymwreiddio.<br>O ran teuluoedd sydd mewn mwy o berygl o ganlyniad i'w problemau'n gwaethygu, bod ymyriadau amlasiantaethol, priodol, ar gael iddynt fel mater o frys.<br><br>Amcanion Allweddol<br>'Taith' well i'r plentyn a'r teulu, gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gwybodaeth, cyngor, a chymorth ar yr adeg iawn, yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.<br><br>Y gallu i ganfod pan fo teuluoedd efallai'n fwy agored i niwed, a fydd yn arwain at gymryd rhagor o gamau ataliol, ynghyd â'r gallu i ddelio â phroblemau cyn iddynt ymwreiddio, a meithrin lles a chadernid teuluoedd.<br><br>Gweithio'n agosach mewn partneriaeth, llinellau atebolrwydd cliriach, a llai o ddyblygu o ran gwaith. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwella ansawdd atgyfeiriadau i'r gwasanaeth plant yn ôl yr hyn a fesurir o ran llai o atgyfeiriadau amddiffyn plant, ynghyd â llai o 'NFAs' gan y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>Lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella cyflawniad addysgol a llythrennedd ariannol, ynghyd â thenantiaethau mwy sicr.<br>Lle bo gwell trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth o fewn yr Hwb CC yn canfod pryderon posibl o ran diogelu, dylid cymryd camau yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol. | | |

| Polisïau a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau |
|---|

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. | Mabwysiedir amrywiaeth o ymagweddau sy'n seiliedig ar chwarae tuag at weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau | | | Anogir plant o bob oed i fynychu cynllun chwarae Gronant, ac maent yn gwneud hynny. Cynhelir gweithgareddau sy'n denu plant ifanc iawn ac oedolion ifanc hefyd. Bu'n gyffredin gweld plant ifanc | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | iawn yn mynychu yng nghwmni brawd neu chwaer llawer hynach, gyda'r ddau'n cymryd rhan yn y gweithgareddau chwarae yn ystod y sesiynau.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio i sicrhau bod cymunedau ar draws Sir y Fflint o blaid pobl hŷn. Mae o wrthi'n datblygu cais i'r Cyngor ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae cymuned sydd o blaid pobl hŷn yn galluogi pobl o bob oed i gael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys, a'u trin â pharch, ynghyd â chael cyfranogi yn eu cymuned. Yn benodol, mae'n galluogi pobl hŷn<br><br>• i fynd yma ac acw<br>• i wneud beth maent eisiau ei wneud<br>• i fyw bywydau iach ac egnïol<br>• i gael mynediad i wybodaeth<br>• i gael lleisio eu barn<br><br>Roedd y WHO wedi nodi 8 agwedd ar ddinasoedd/cymunedau sy'n dylanwadu ar y modd yr ydym yn heneiddio. Dim | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ond un o'r agweddau hynny yw **mannau awyr agored ac adeiladau cyhoeddus**.<br><br>Fel rhan o ddigonolrwydd eich darpariaeth o gyfleoedd chwarae, beth am ystyried y modd y gallai pobl hŷn gael mynediad i'r parciau a'r mannau chwarae ar draws Sir y Fflint? Nid yn unig gyda'u plant/wyrion, ond o ran rhywle y gallant fynd iddo i gyfarfod ffrindiau, i gael cinio, i ymarfer, neu i ddefnyddio offer chwarae, e.e. trawstiau balansio, siglenni.<br>Ceir y syniad mai ar gyfer plant yn unig y mae mannau chwarae, ac efallai y byddid yn ystyried bod presenoldeb oedolyn heb blentyn yn rhywbeth amheus. Sut allwn ni oresgyn y rhwystrau hyn er mwyn i fannau chwarae fod yn hygyrch i bobl o bob oed? Mae'r rhwystrau'n cynnwys arwyddion, mynediad, seddau anaddas neu annigonol.<br><br>Mae'n amlwg mai plant ddylai gael y flaenoriaeth o ran mynediad i offer chwarae pan fo'r mannau hyn yn brysur, ac ni fyddai rhywfaint o'r offer ond yn addas i blant hyd at ryw oedran penodol. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | A fyddai modd ymgysylltu â phobl hŷn ynghylch sut y gallent ddefnyddio mannau chwarae yn eu cymunedau? Neu, os ydynt yn eu defnyddio eisoes, sut fyddai modd eu gwella i ddiwallu eu hanghenion? | | |
| 8. | Mabwysiedir ymagwedd greadigol tuag at weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n annog gwell rhyngweithio rhwng plant o wahanol oedrannau | | | Mae gwaith AURA o ran dylunio ac adnewyddu mannau chwarae sefydlog yn cefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwarae i bawb o bob oed.<br><br>Mae amrywiaeth o weithgareddau a natur y man chwarae yn annog pobl o bob oedran i'w mynychu.<br><br>Anogir plant o bob oed i fynychu cynllun chwarae Gronant, ac maent yn gwneud hynny. Cynhelir gweithgareddau sy'n denu plant ifanc iawn ac oedolion ifanc hefyd. Bu'n gyffredin gweld plant ifanc iawn yn mynychu yng nghwmni brawd neu chwaer llawer hynach, gyda'r ddau'n cymryd rhan yn y gweithgareddau chwarae yn ystod y sesiynau. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio i sicrhau bod cymunedau ar draws Sir y Fflint o blaid pobl hŷn. Mae o wrthi'n datblygu cais i'r Cyngor ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae cymuned sydd o blaid pobl hŷn yn galluogi pobl o bob oed i gael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys, a'u trin â pharch, ynghyd â chael cyfranogi yn eu cymuned. Yn benodol, mae'n galluogi pobl hŷn<br><br>• i fynd yma ac acw<br>• i wneud beth maent eisiau ei wneud<br>• i fyw bywydau iach ac egnïol<br>• i gael mynediad i wybodaeth<br>• i gael lleisio eu barn<br><br>Roedd y WHO wedi nodi 8 agwedd ar ddinasoedd/cymunedau sy'n dylanwadu ar y modd yr ydym yn heneiddio. Dim ond un o'r agweddau hynny yw **mannau awyr agored ac adeiladau cyhoeddus**. Fel rhan o ddigonolrwydd eich darpariaeth o gyfleoedd chwarae, beth am ystyried y modd y gallai pobl hŷn gael mynediad i'r parciau a'r mannau | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae ar draws Sir y Fflint? Nid yn unig gyda'u plant/wyrion, ond o ran rhywle y gallant fynd iddo i gyfarfod ffrindiau, i gael cinio, i ymarfer, neu i ddefnyddio offer chwarae, e.e. trawstiau balansio, siglenni.<br>Ceir y syniad mai ar gyfer plant yn unig y mae mannau chwarae, ac efallai y byddid yn ystyried bod presenoldeb oedolyn heb blentyn yn rhywbeth amheus. Sut allwn ni oresgyn y rhwystrau hyn er mwyn i fannau chwarae fod yn hygyrch i bobl o bob oed? Mae'r rhwystrau'n cynnwys arwyddion, mynediad, seddau anaddas neu annigonol.<br><br>Mae'n amlwg mai plant ddylai gael y flaenoriaeth o ran mynediad i offer chwarae pan fo'r mannau hyn yn brysur, ac ni fyddai rhywfaint o'r offer ond yn addas i blant hyd at ryw oedran penodol.<br><br>A fyddai modd ymgysylltu â phobl hŷn ynghylch sut y gallent ddefnyddio mannau chwarae yn eu cymunedau? Neu, os ydynt yn eu defnyddio eisoes, sut fyddai modd eu gwella i ddiwallu eu hanghenion? | | |

| Iechyd a Diogelwch | |
|---|---|

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. | Mae'r polisïau Iechyd a Diogelwch yn nodi'n glir pa mor bwysig ydyw bod plant yn gallu profi risg a heriau | | | Rydym yn cefnogi'r datganiad lefel uchel ynghylch chwarae a risg gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rydym yn darparu safonau corfforaethol o ran asesu risg, ynghyd ag asesiadau risg enghreifftiol ar gyfer ysgolion, ond nid wyf yn meddwl y byddai hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau a'r manteision.<br>Cynhelir asesiadau risg llawn ar gyfer pob cynllun chwarae i sicrhau bod pob safle'n ddiogel cyn i gynllun chwarae gychwyn, a bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r asesiadau risk. Hefyd, mae cynlluniau chwarae'n dilyn gweithdrefnau gweithredu clir, gan gynnwys gweithdrefnau brys i sicrhau iechyd a diogelwch bob plentyn ac aelod staff yn ystod cynnal darpariaeth unrhyw gynllun chwarae. Caiff pob damwain / digwyddiad eu harchwilio, a lle bo angen, cymerir camau gweithredu i atal hynny rhag digwydd eto.<br><br>Bydd ein tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cwblhau sampl o archwiliadau o safleoedd rhai cynlluniau | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chwarae, a darperir adborth i Reolwyr y Cynlluniau chwarae hynny. | | |
| 10. | Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn cynnwys yr ymagwedd risgiau a buddiannau tuag at asesiadau iechyd a diogelwch fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | | | Rydym yn cefnogi'r datganiad lefel uchel ynghylch chwarae a risg gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rydym yn darparu safonau corfforaethol o ran asesu risg, ynghyd ag asesiadau risg enghreifftiol ar gyfer ysgolion, ond nid wyf yn meddwl y byddai hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau a'r manteision.<br>Cynhelir asesiadau risg llawn ar gyfer pob cynllun chwarae i sicrhau bod pob safle'n ddiogel cyn i gynllun chwarae gychwyn, a bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r asesiadau risk. Hefyd, mae cynlluniau chwarae'n dilyn gweithdrefnau gweithredu clir, gan gynnwys gweithdrefnau brys i sicrhau iechyd a diogelwch bob plentyn ac aelod staff yn ystod cynnal darpariaeth unrhyw gynllun chwarae. Caiff pob damwain / digwyddiad eu harchwilio, a lle bo angen, cymerir camau gweithredu i atal hynny rhag digwydd eto. Bydd ein tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cwblhau sampl o archwiliadau o safleoedd rhai cynlluniau chwarae, a darperir adborth i Reolwyr y Cynlluniau chwarae hynny. | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae AURA yn cefnogi cyflwyno a chynnal eitemau dynamig o offer chwarae sy'n hyrwyddo cyfleoedd chwarae llawn her. Y nod yw osgoi offer statig, difywyd, nad yw o fawr o werth o safbwynt chwarae. | | |
| 11. | Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig y ddarpariaeth o yswiriant trw gynllun yr Awdurdod Lleol i unrhyw ddarparwyr chwarae trydydd parti a chynghorau cymuned | | | Rydym yn cefnogi'r datganiad lefel uchel ynghylch chwarae a risg gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Rydym yn darparu safonau corfforaethol o ran asesu risg, ynghyd ag asesiadau risg enghreifftiol ar gyfer ysgolion, ond nid wyf yn meddwl y byddai hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau a'r manteision.<br>Cynhelir asesiadau risg llawn ar gyfer pob cynllun chwarae i sicrhau bod pob safle'n ddiogel cyn i gynllun chwarae gychwyn, a bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r asesiadau risk. Hefyd, mae cynlluniau chwarae'n dilyn gweithdrefnau gweithredu clir, gan gynnwys gweithdrefnau brys i sicrhau iechyd a diogelwch bob plentyn ac aelod staff yn ystod cynnal darpariaeth unrhyw gynllun chwarae.<br><br>Caiff pob damwain / digwyddiad eu harchwilio, a lle bo angen, cymerir camau gweithredu i atal hynny rhag digwydd eto.<br><br>Bydd ein tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cwblhau sampl o | | |

| Cyfeirif ALI | Meini prawf | Statws RAG 2019 | Statws RAG 2022 | Tystiolaeth i ategu cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a Nodir ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | archwiliadau o safleoedd rhai cynlluniau chwarae, a darperir adborth i Reolwyr y Cynlluniau chwarae hynny. | | |

**Casgliad a'r Ffordd Ymlaen**

Mae Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022/2023 yr Awdurdod Lleol yn nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r cyfleoedd  i blant gael chwarae o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.

Nodwyd fod y camau gweithredu hyn yn bwysig ac yn effeithiol, a sicrhau adferiad yn dilyn y pandemig yw'r thema canolog. Ein pwyslais fydd parhau i gefnogi plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau gyda chyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau o safbwynt chwarae/chwaraeon/diwylliant a hamdden.

O 2022 – 2025, ceir pwyslais parhaus ar ddatblygu'r seilwaith strategol ar gyfer cefnogi cyfleoedd chwarae i blant.

Bydd pwyslais ar gael pob gwasanaeth i gefnogi ein plant, ein pobl ifanc, a'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.

**Llofnodwyd: …Janet Roberts…Dyddiad: …………………30/06/2022…………………………………………**

**Camau gweithredu i'w cymryd i fynd i'r afael â'r materion / diffygion a gofnodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

**Camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023**

| Mater | Blaenoriaethau | Targedau | Cysylltu â Materion eraill | Adnoddau, gan gynnwys costau | Ffynhonnell ariannu (ffrydiau arian newydd neu rai sy'n bodoli eisoes) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canllawiau Statudol - fframwaith polisi** | **1**. Datblygu'r Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Strategol, o dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid a'r Aelod Arweiniol dros Addysg. | Parhau i ddatblygu Digonolrwydd Chwarae o safbwynt strategol yn y sir ar y lefel uchaf. Darparu llwybr cyfathrebu clir trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion<br><br>Amser Partneriaeth | Yr Awdurdod Lleol |
| | **2**. Datblygiad parhaus gweithgor adfer COVID 19. | Galluogi modd cydgysylltiedig o weithio o safbwynt cyflenwi ar draws y sir trwy grantiau e.e. Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan, grant Gaeaf Llawn Lles, Haf o Hwyl.<br><br>Mewn cydymffurfiaeth â'r cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion<br><br>Amser Partneriaeth | Yr Awdurdod Lleol |
| | **3.** Un o'r awgrymiadau ar gyfer yr awdurdod lleol yw y dylid deall gofynion plant sy'n | Creu grŵp amlasiantaethol i edrych yn benodol ar anghenion plant, pobl ifanc, | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion | Yr Awdurdod Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | siarad Cymraeg o ran eu gofynion o safbwynt chwarae. | teuluoedd a chymunedau sy’n siarad Cymraeg.<br><br>Parhau i weithio mewn partneriaeth i gyflenwi darpariaeth gwyliau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Gweithio gyda’r Cydlynydd Iaith Gymraeg Cymunedol o fewn Darpariaeth Ieuenctid Integredig.<br><br>Rôl y Cydlynydd Iaith Gymraeg Cymunedol yw gweithio gyda phob maes gwasanaeth, gan gynnwys chwarae.<br><br>Ceir cynllun 10 mlynedd ar gyfer Darpariaeth Ieuenctid Integredig, sy’n cyfeirio at chwarae yn Sir y Fflint ynghyd â’r Gymraeg.<br><br>Gyda Chydlynydd y Gymraeg - Parhau i ganfod cyfleoedd ar gyfer cyflwyno’r Gymraeg mewn prosiectau chwarae o fewn ysgolion a lleoliadau yn y gymuned, yn seiliedig ar yr arferion da a sefydlwyd eisoes yn ystod 2021/2022<br><br>Darparu cyfleoedd i gyflwyno’r Gymraeg o fewn gwasanaethau chwarae ac | | Amser Partneriaeth | Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ieuenctid ar gyfer plant a phobl ifanc.<br><br>Creu gweithgor newydd o fewn Addysg ac Ieuenctid. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a sefydliadau sy'n bartneriaid sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd a'u cymunedau.<br><br>Arweinir y grŵp hwn gan y Swyddog Iaith Gymraeg Cymunedol o fewn y gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig. | | | |
| | 5. Cynrychiolir Datblygu Chwarae ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o Grŵp Rheoli Risg Oedolion sy'n Agored i Niwed (VARM) yr Awdurdod Lleol. Hwn yw'r grŵp tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sydd wedi'i ailenwi. Yn gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid i ganfod ymyriadau priodol a'u | Darparu cyngor, cyflenwi neu sicrhau gwasanaethau chwarae cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn lle mae eu hangen fwyaf ar gyfer y plant, pobl ifanc a'r teuluoedd a chymunedau sydd fwyaf agored i niwed yn Sir y Fflint.<br><br>Darparu prosiectau gwaith chwarae fel y mynnir gan ddefnyddio'r Tîm Datblygu Chwarae, Darpariaeth Ieuenctid Integredig, y | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Hamdden a Llyfrgelloedd AURA<br><br>Grŵp Amlasiantaethol ar gyfer Oedolion sy'n Agored i Niwed sydd mewn perygl<br><br>. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhoi ar waith mewn ardaloedd a chanddynt broblemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>**6.** | gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Cicio i Blant Cymru / 'Kicks for Kids' Wales. | | | |
| | **5** Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chwarae Cymru, sef y sefydliad elusennol cenedlaethol ar gyfer cyfleoedd chwarae plant, er mwyn hybu'r agenda o safbwynt Digonolrwydd Chwarae yn y sir: Cynnwys dadansoddiad o brosiectau ymchwil; arweiniad ar gyfer cyflenwi Gwaith Chwarae; mynychu hyfforddiant a digwyddiadau i ddarparu cymorth ychwanegol. | Darparu cyngor ac ymchwil o safbwynt datblygiad strategol parhaus yng nghyswllt chwarae. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion | Cronfa Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru |
| | **6.** Datblygiad parhaus rhwydwaith sirol ehangach ar gyfer chwarae, sy'n cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed. | Cynrychiolaeth ar ran y sir gyfan o safbwynt pob mater. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion | Yr Awdurdod Lleol |
| Mater A: Poblogaeth | **7.**Sicrhau bod pob maes gwasanaeth a sefydliadau sy'n bartneriaid yn | Darparu gwasanaeth yn lle mae'r angen mwyaf ar gyfer y | Yn cysylltu â'r holl | Amser Swyddogion | Yr Awdurdod Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymwybodol o'r cysylltiadau ar gyfer cael ystadegau a gwybodaeth am y boblogaeth.<br><br>Defnyddio gwybodaeth o'r cyfrifiad pan fydd ar gael. | plant, pobl ifanc a'r cymunedau sydd fwyaf agored i niwed. | faterion eraill | | |
| Mater B: Diwallu anghenion amrywiol | **8**. Datblygu gwasanaethau chwarae cynhwysol a chreu cyfleoedd newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.<br><br>Gan gynnwys:-<br><br>Plant a phobl ifanc ag anableddau. .<br><br>Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.<br><br>Plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid.<br><br>Plant a phobl ifanc sy'n sipsiwn a theithwyr.<br><br>Plant sy'n byw mewn cymunedau y nodwyd eu bod yn agored i niwed. | 2,700 o blant i fynychu'r ddarpariaeth haf yn flynyddol.<br><br>Cyflenwi Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint – cynnig hwn i blant a phobl ifanc ar draws y sir trwy raglen gwyliau haf y sir, mewn partneriaeth â 30 o gynghorau tref a chymuned. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion<br><br>Amser Partneriaeth<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer rhaglen y sir yw £120K | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Cronfa Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae | **9.** Gweithio mewn partneriaeth i ganfod blaenoriaethau o fewn Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Chwarae, i ganfod camau gweithredu ar gyfer cyllid grant. | Plant a phobl ifanc Sir y Fflint.<br><br>Hamdden a Llyfrgelloedd AURA. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Cronfa Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan<br><br>Hamdden a Llyfrgelloedd AURA |
| Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth | **10**. Cyflenwi'r rhaglen gynlluniau chwarae gwyliau sirol gyffredinol yn Sir y Fflint sy'n ymgorffori Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint – cynnig hyn i blant a phobl ifanc ar draws y sir trwy raglen gwyliau haf y sir, mewn partneriaeth â 34 o gynghorau tref a chymuned lleol.<br>Cyflenwi darpariaeth chwarae dwyieithog. | 2,700 o blant i fynychu darpariaeth cynlluniau chwarae haf y sir.<br><br>35 o blant a phobl ifanc i fynychu rhaglen Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion<br><br>Amser Partneriaeth<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer rhaglen y sir yw tua £120K<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint yw tua £17K<br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer y cynllun chwarae gwyliau haf cyfrwng Cymraeg yw tua £5K<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Cronfa Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan<br><br>Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ar gyfer prosiect plant digartref Plas Bellin yw tua 5K<br>Cost darpariaeth ychwanegol cymuned Holway yw tua £15K | |
| | **11** Parhau i weithio mewn partneriaeth i ganfod a diogelu cyfleoedd chwarae ar gyfer ein plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed.<br><br>e.e. Plant a phobl ifanc ag anableddau.<br>Plant a phobl ifanc sy'n ddigartref.<br><br>Plant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig o safbwynt cymdeithasol, economaidd a chyfleoedd chwarae. | Darparu gwasanaethau cynhwysol ac integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br><br>35 o blant a phobl ifanc i fynychu rhaglen Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint.<br><br>120 o blant a phobl ifanc i fynychu darpariaeth cynlluniau chwarae haf cyfrwng Cymraeg.<br><br>Targed o 13 o blant a phobl ifanc i fynychu pob prosiect chwarae arall fesul sesiwn a gyflenwir, h.y. cymuned Holway.<br><br>Prosiectau o fewn ysgolion a'r gymuned yn ystod amser tymor. | Mater B | Amser Swyddogion<br><br>Amser Sefydliadau sy'n Bartneriaid<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint yw tua £17K<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer y cynllun chwarae gwyliau haf cyfrwng Cymraeg yw tua £5K<br><br>Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer prosiect plant digartref | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Cronfa Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned<br><br>Sefydliadau sy'n Bartneriaid, e.e. Grŵp Cydnerthedd Wrecsam a Sir y Fflint |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Plas Bellin yw tua 5K<br><br>Cost darpariaeth ychwanegol cymuned Holway yw tua £15K<br><br>Cost cyflenwi parhaus y ddarpariaeth o fewn ysgolion a lleoliadau yn y gymuned yn ystod amser tymor yw tua 40K | |
| Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae | **12.** Parhau i ddarparu prosiectau a gwasanaethau chwarae am ddim neu am gost isel i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. | Cyflenwi rhaglen cynlluniau chwarae haf y sir.<br><br>Cyflenwi prosiectau o fewn ysgolion a'r gymuned mewn cydymffurfiaeth â chynlluniau gweithredu digonolrwydd chwarae'r awdurdod lleol.<br><br>Meysydd chwarae ag offer sefydlog y ceir mynediad iddynt yn rhad ac am ddim. | Yn cysylltu â'r holl faterion | Amser Swyddogion<br><br>Amser sefydliadau sy'n bartneriaid | Yr Awdurdod Lleol<br><br>AURA<br><br>Theatr Clwyd a gwasanaethau a darparwyr eraill e.e. derbynyddion a darparwyr gwasanaeth grantiau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mater F: Mynediad i le/darpariaeth | **13.** Datblygu gweithgor amlasiantaethol i baratoi arweinlyfr chwarae / gwybodaeth i deuluoedd ynghylch agweddau ar gyflenwi gwasanaethau chwarae, yn ôl y diffiniad o fewn Digonolrwydd Chwarae. | Darparu arweinlyfr cynhwysfawr i wasanaethau chwarae ar draws y sir, fel y diffinnir o fewn Digonolrwydd Chwarae, sy'n cynnwys y celfyddydau, a chyfleoedd hamdden a diwylliannol.<br>Caiff hyn ei alluogi trwy dudalennau gwe Cyngor Sir Y Fflint a'r cyfryngau cymdeithasol.<br>Tudalennau gwe Hamdden a Llyfrgelloedd AURA.<br>Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.<br>Addysg ac ysgolion. | Yn cysylltu â'r holl faterion | Amser Swyddogion<br>Amser sefydliadau sy'n bartneriaid | Yr Awdurdod Lleol<br>Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru<br>Potensial am nawdd yn unol â chanllawiau'r awdurdod lleol |
| Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu | **14.**Datblygu gweithgor ar gyfer hyfforddiant 'Playwork'.<br><br>Cyflenwi cyrsiau hyfforddiant achredidig ar gyfer 'Playwork', hyd at safonau lefel 2 a 3. | Sicrhau bod y sir yn cydymffurfio a'r Safonau Gofynnol a'r cymwysterau ar gyfer cyflenwi o fewn pob gwasanaeth chwarae.<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi'r gweithlu i gyflawni'r lefelau cymwysterau a dderbynnir. Cyflenwi cyrsiau hyfforddiant achredidig ar gyfer 'Playwork', hyd at safonau lefel 2 a 3 | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Yn disgwyl am gadarnhad o ran costau cyrsiau<br>Amser Swyddogion | Llywodraeth Cymru<br>Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan<br>Yr Awdurdod Lleol<br>Chwarae Cymru |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi | **15** Gweithio gyda chymuned Holway fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint – Creu ymrwymiad i Gymunedau Gwydn trwy grŵp tasg Holway a dull gweithio amlasiantaethol. Ymrwymiad i ymgymryd â gwaith chwarae gyda'r plant a phobl ifanc fel rhan o ymgynghoriad ehangach y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni newid ar gyfer y gymuned. Bydd yn cynnwys prosiectau cyfalaf a refeniw, e.e. datblygu'r syniad o gael maes chwarae antur.<br><br>Parhau i gynrychioli gydag ymagwedd amlasiantaethol. Mae'r maes gwaith chwarae'n profi i fod yr ysgogydd mwyaf effeithiol ar gyfer ymgysylltiad go iawn. | Pob aelod o'r gymuned, yn enwedig plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. | Yn cysylltu â'r holl faterion eraill | Amser Swyddogion<br><br>Amser sefydliadau sy'n bartneriaid | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Grant Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru<br><br>Cyngor Tref Treffynnon<br><br>Cyfeillion Holway |
| Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu | 16. Parhau i weithio gyda thîm Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Lleol i alluogi cydymffurfiaeth o ran cyflenwi pob prosiect o fewn ysgolion ar gymuned. Hybu camau | Darperir hyfforddiant pwrpasol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'r Awdurdod Lleol. | Mater I | Amser Swyddogion<br><br>Amser sefydliadau sy'n bartneriaid | Yr Awdurdod Lleol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | cynhwysfawr i reoli risg yn effeithiol o safbwynt cyflenwi gwasanaethau. | | | | |
| | 17. Datblygu grŵp Addysg ac Ieuenctid i gymryd camau penodol i fwrw ymlaen â Mater I mewn perthynas â chwarae mewn ysgolion. | Parhau i gyflenwi 'Play-work' a Cicio i Blant (Cymru) / 'Kicks for Kids (Wales)' o fewn ysgolion a chymunedau Sir y Fflint, mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol.<br><br>Darperir gwybodaeth a chyfathrebu da i alluogi ysgolion i ymateb i gyfleoedd i ddefnyddio cyllid cyfalaf a ddarperir trwy grantiau, mewn modd effeithiol a chyflym. | Mater I | Amser Swyddogion<br><br>Amser sefydliadau sy'n bartneriaid<br><br>Cyllid ar gyfer prosiectau<br><br>Amser swyddogion lleol | Yr Awdurdod Lleol<br><br>Cyfalaf a refeniw Cronfa Cyfleoedd Chwarae Cymru Llywodraeth Cymru<br><br>Grantiau eraill sydd ar gael i ysgolion, e.e. Arian i Bawb<br><br>Cynghorau Tref a Chymuned Lleol |